


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Polisi Cynllunio Cymru

## Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mawrth 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54242, ISBN digidol 978-1-83745-392-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Ffotograff y clawr: Aberteifi (© Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2025) Cymru Wales).

# Tabl Cynnwys


**1 Cyflwyniad** 5

Statws y Nodyn Cyngor Technegol
Diben y Nodyn Cyngor Technegol
Yr Amgylchedd Hanesyddol, Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd
Egwyddorion Cadwraeth
Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth
Gwybodaeth am Asedau Hanesyddol yng Nghymru
Rheoli Datblygiad a Gosodiad Asedau Hanesyddol
Cadwraeth Natur a'r Amgylchedd Hanesyddol

**2 Cynlluniau Datblygu Lleol** 12

Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol

**3 Safleoedd Treftadaeth y Byd** 13

Egwyddorion a Pholisïau ar gyfer Gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd
Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd
Cynigion Datblygu ar Safleoedd Treftadaeth y Byd

**4 Gweddillion Archaeolegol** 16

Pwysigrwydd Gweddillion Archaeolegol a'u Cofnodion
Gweddillion Archaeolegol a'r Broses Rheoli Datblygu
Diogelu Gweddillion Archaeolegol, neu eu Diogelu'n Rhannol, yn y fan a'r lle
Cofnodi Tystiolaeth Archaeolegol a Meithrin Dealltwriaeth Ohoni
Darganfyddiadau Archaeolegol Annisgwyl

**5 Adeiladau Rhestredig** 20

Dynodi Adeilad Rhestredig
Cydsyniad Adeilad Rhestredig
Rheolaethau Eraill
Gorfodi

**6** **Ardaloedd Cadwraeth** **29**

Dynodi ac Adolygu Ardaloedd Cadwraeth

Arfarnu Ardaloedd Cadwraeth

Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth

Rheoli Hysbysebion

Cydsyniad Ardal Gadwraeth

Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth

Gorfodi

Apeliadau

**7** **Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru** **33**

Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

Y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru

**8** **Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig** **35**

**9** **Atodiadau** **36**

A: Henebion Cofrestredig 36

Dynodi Henebion Cofrestredig

Cydsyniad Heneb Gofrestredig

Awdurdodiad ar gyfer Dosbarthau o Waith

Troseddau sy'n Ymwneud â Henebion Cofrestredig

Gwaith Brys ar gyfer Iechyd a Diogelwch

B: Adeiladau Rhestredig 42

Dynodi Adeiladau Rhestredig

Erlyn a Gorfodi

Adeiladau Rhestredig mewn Pergyl

Gwaith Brys i Adeilad Rhestredig

Adeiladau Rhestredig sydd Angen eu Hatgyweirio

C: Asedau Hanesyddol Cofrestredig 46

Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

Y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru

Ch: Rhestr Termau 48

D: Cysylltiadau a Ffynonellau o Wybodaeth Bellach 52

# 1 Cyflwyniad

## Statws y Nodyn Cyngor Technegol

**1.1** Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru sy'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried Polisi Cynllunio Cymru, y Nodiadau Cyngor Technegol a chanllawiau arferion gorau Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) wrth lunio eu cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.[1] Gallent fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau unigol am ganiatâd cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth a bydd Gweinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio yn eu hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau a'r apeliadau hynny a ddaw ger eu bron.

**1.2** Mae dogfennau cyfeirio defnyddiol, a restrir fel troednodiadau, yn darparu gwybodaeth ychwanegol y gellir ei darllen ar y cyd â'r TAN hwn. Mae'r TAN yn cynnwys atodiadau sy'n ymdrin yn benodol â'r gweithdrefnau dynodi a chysyniad sy'n gysylltiedig â henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac asedau hanesyddol cofrestredig.

## Diben y Nodyn Cyngor Technegol

**1.3** Diben y TAN hwn yw rhoi arweiniad ar sut y mae'r system gynllunio'n ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio a Chydsyniad Adeilad Rhestredig (LBC). Mae'r TAN hwn yn rhoi arweiniad penodol ar sut y dylid ystyried yr agweddau isod ar yr amgylchedd hanesyddol:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Henebion cofrestredig
- Gweddillion archaeolegol
- Adeiladau rhestredig
- Ardaloedd cadwraeth
- Parciau a gerddi hanesyddol
- Tirweddau hanesyddol
- Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol, Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd

**1.4** Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i warchod a chynnal yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru,[2] ac mae dyletswydd arnynt i gyflawni datblygu cynaliadwy.[3]

---

1 Mae'r dogfennau hyn hefyd yn ategu deddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

2 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 61 a darpariaethau deddfwriaethol eraill a drafodwyd mewn mannau eraill o'r ddogfen hon.

3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 79 a Polisi Cynllunio Cymru, pennod 6.

**1.5** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (h.y. ei bod yn ofynnol i'r corff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain).[4] Mae'r Ddeddf honno hefyd yn pennu nodau llesiant sy'n cynnwys sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a ddisgrifir fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg…'.[5] Hefyd, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill) i greu amcanion llesiant. Dylid cymryd camau rhesymol i fodloni'r amcanion yng nghyd-destun yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Gall amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei warchod, ei gadw a'i wella yn briodol wella ansawdd bywyd a llesiant i bawb.

**1.6** O ran polisi, diffinnir yr amgylchedd hanesyddol fel pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o ryngweithio pobl a lleoedd dros amser, gan gynnwys holl olion ffisegol gweithgarwch dynol yn y gorffennol sydd wedi goroesi, boed yn weladwy, yn gladdedig neu o dan ddŵr, ac wedi'u plannu neu wedi'u rheoli'n fwriadol.

Diffinnir ased hanesyddol fel elfen o'r amgylchedd hanesyddol y gellir ei hadnabod. Gall fod yn safle archaeolegol, adeilad neu strwythur hanesyddol, parc neu ardd hanesyddol neu ran o dirwedd hanesyddol, neu'n gyfuniad ohonynt. Fel arfer, caiff asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol eu dynodi.

Gyda'i gilydd ac o'u gosod yn eu cyd-destun diwylliannol, mae asedau hanesyddol yn cyfrannu at gymeriad rhannau gwahanol o Gymru a'u hymdeimlad o le.[6]

**1.7** Mae'n anochel y bydd yr amgylchedd hanesyddol yn newid. Gall hyn ddigwydd oherwydd y dirywio a achosir gan brosesau naturiol, difrod a achosir gan ddefnydd parhaus, a'r angen i ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a thechnolegol.[7]

**1.8** Mae amryfal effeithiau newid yn yr hinsawdd ar asedau hanesyddol yn her benodol. Bydd rhai o'r rhain y tu allan i gwmpas y broses gynllunio megis cynnydd yn lefel y môr, llifogydd, newidiadau mewn llystyfiant a defnydd tir amaethyddol.[8] Fodd bynnag, gall mesurau sydd angen eu cymryd mewn ymateb i effaith newid hinsawdd neu i leihau allyriadau carbon, megis amddiffynfeydd môr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd neu brosiectau ynni adnewyddadwy fod yn perthyn i'r system gynllunio.[9] Dylid pwyso a mesur y budd i'r cyhoedd yn sgil cymryd camau i leihau allyriadau carbon neu addasu effaith newid yn yr hinsawdd, yn erbyn unrhyw niwed i arwyddocâd asedau hanesyddol.[10]

---

4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, adran 5.

5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, adran 4.

6 Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, diffiniadau, t 36.

7 Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, paragraff 1.1.

8 Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru, Cynllun Addasu'r Sector, Grŵp Amgylchedd Hanesyddol.

9 Gweler hefyd Sut i Wella Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Hanesyddol yng Nghymru, Cadw. Llywodraeth Cymru a Llifogydd ac Adeiladau Hanseyddol yngh Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

10 Disgrifir arwyddocâd yn fanylach yn Egwyddor 2, Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru.

## Egwyddorion Cadwraeth

**1.9** Mae'r *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) yn darparu'r sail y mae Cadw yn cyflawni dyletswyddau statudol penodol ar ran Gweinidogion Cymru. Dylai Egwyddorion Cadwraeth gael eu defnyddio gan eraill (gan gynnwys perchenogion, datblygwyr a chyrff cyhoeddus eraill) i asesu'r effeithiau y gallai cynnig datblygu eu cael ar arwyddocâd unrhyw ased/asedau hanesyddol ac i helpu i wneud penderfyniadau pan fo'r broses gynllunio yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

**1.10** Mae chwe egwyddor, sef.

1. Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerth.
2. Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig.
3. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir.
4. Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol.
5. Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson.
6. Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt.

**1.11** Anogir ymgeiswyr a sefydliadau eraill yn gryf i ddefnyddio'r Egwyddorion Cadwraeth hyn wrth ystyried cynigion datblygu a gwaith arall ar asedau hanesyddol. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gyfrifol yn deall y gwerthoedd treftadaeth ac yn asesu arwyddocâd yr asedau hanesyddol yr effeithir arnynt. Mae pedwar gwerth treftadaeth y mae angen eu deall cyn y gellir asesu arwyddocâd yr ased, sef.

- Gwerth tystiolaethol
- Gwerth hanesyddol
- Gwerth esthetig
- Gwerth cymunedol

Mae dealltwriaeth o'r gwerthoedd hyn yn sail i ddatganiad arwyddocâd a gaiff ei lunio fel rhan o ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth.[11]

**1.12** Teitl rhan olaf Egwyddorion Cadwraeth yw 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith'.

**1.13** Mae'n nodi sut i ystyried lefelau gwahanol o ymyrraeth ar safle neu ased hanesyddol penodol. Mae'r cyngor yn amrywio o waith rheoli a chynnal a chadw arferol, gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu cyfnodol, lle mae angen ymyrraeth archaeolegol, a gwaith adfer, i waith newydd a newidiadau. Ystyrir hefyd sut y gellir darparu ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ochr yn ochr â buddiannau eraill a lle y gall datblygiad galluogi fod yn dderbyniol er mwyn sicrhau dyfodol ased hanesyddol pwysig. Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn darparu profion y gellir eu defnyddio i farnu agweddau gwahanol ar gynnig datblygu.

[11] Gweler paragraff 1.15 am ragor o wybodaeth am asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

**1.14** Mae Egwyddorion Cadwraeth yn cydnabod bod yr amgylchedd hanesyddol cyfan yn adnodd cyfyngedig a rennir. Mae gan bob lle ei hanes ei hun, sydd wedi llywio ei gymeriad ac sy'n gadael olion amlwg ar ei ffurf a'i wead presennol. Mae'r cymeriad hanesyddol hwn yn golygu bod pob lle yn unigryw ac yn meddu ar ei hunaniaeth ei hun. Dylid ystyried cymeriad hanesyddol wrth reoli newid er mwyn diogelu natur unigryw ardal leol ac ymdeimlad o le. Mae'n hanfodol defnyddio dull gwrthrychol, strwythuredig o nodi cymeriad hanesyddol a llunio sylfaen dystiolaeth.[12]

## Asesiad o' r Effaith ar Dreftadaeth

**1.15** Mae proses asesu'r effaith ar dreftadaeth yn un strwythuredig sy'n golygu bod modd ystyried arwyddocâd ased hanesyddol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid.[13] Dylai asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol a maint y newid a gynigir a dylent gynnwys digon o wybodaeth fel y gellir deall arwyddocâd yr ased ac effaith y newid. Dylid crynhoi canlyniadau'r asesiad o'r effaith ar dreftadaeth mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth y mae'n rhaid iddo fod yn rhan o unrhyw geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth ac, os gofynnir amdano, gydsyniad heneb gofrestredig. O dan rai amgylchiadau, rhaid i'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gynnwys datganiad mynediad.[14]

**1.16** Hefyd, bydd ceisiadau cynllunio penodol ar gyfer datblygu yn gofyn am Ddatganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r gofynion ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad wedi'u rhagnodi gan ddeddfwriaeth,[15] ond gallent gynnwys mathau penodol o gais cynllunio a allai gael effaith ar asedau hanesyddol. Dylai awdurdodau cynllunio roi cyngor i ymgeiswyr ynglŷn â ble mae angen y datganiadau hyn er mwyn helpu i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad sy'n effeithio ar asedau hanesyddol sydd eisoes yn bodoli. Pan fydd angen Ddatganiad Dylunio a Mynediad a datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, dylai'r awdurdod cynllunio lleol roi gwybod beth sy'n angenrheidiol ar gyfer y naill a'r llall er mwyn osgoi dyblygu.

## Gwybodaeth am Asedau Hanesyddol yng Nghymru

**1.17** Mae gwybodaeth am asedau hanesyddol dynodedig (henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a llongau drylliedig gwarchodedig) yn ogystal â gwybodaeth am y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru a Safleoedd Treftadaeth y Byd ar gael drwy 'Cof Cymru' drwy wefan Cadw.[16]

**1.18** Awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau. Gallant hefyd ddatblygu rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol perthnasol.

---

12 Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
13 Mae Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad pellach am y broses o gynnal asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth.
14 Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfraddau Llog) (Cymru) 2024, rheoliad 4.
15 Gorchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012; Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Rheoli Datblygu.
16 Cof Cymru (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw)

**1.19** Nid yw asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig ond yn rhan fach o'r amgylchedd hanesyddol ehangach. Mae'r wybodaeth fwyaf hygyrch a chynhwysfawr am bob safle archaeolegol hysbys, adeiladau hanesyddol hysbys ac elfennau eraill o'r dirwedd hanesyddol i'w chael yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

**1.20** Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio a diweddaru y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru[17] er mwyn helpu i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae hefyd yn ofynnol iddynt sicrhau bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol hyn ar gael i'r cyhoedd a bod cyngor a chymorth ar gael i'r rhai sydd am gael gafael ar y wybodaeth a geir ynddynt a'i deall. Mae Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, wedi llunio canllawiau ar y ffordd y gall cyrff penodol gyfrannu at y gwaith o lunio y cofnodion amgylchedd hanesyddol a helpu i sicrhau eu bod yn gyfredol, ac ar ddefnyddio y cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff hynny.[18] Mae hyn yn cynnwys rôl awdurdodau cynllunio wrth arfer eu swyddogaethau cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.

**1.21** Mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu dyletswydd o ran y cofnodion amgylchedd hanesyddol drwy Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.[19]

**1.22** Ategir y cofnodion amgylchedd hanesyddol gan y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol, sef Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a gedwir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.[20]

## Rheoli Datblygiad a Gosodiad Asedau Hanesyddol

**1.23** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi sut y dylai awdurdodau cynllunio drin Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion cofrestredig, gweddillion archaeolegol anghofrestredig o bwys cenedlaethol,[21] adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Nghymru, pan fyddant yn ystyried ceisiadau cynllunio ac yn llunio cynlluniau datblygu. Mae hyn yn cynnwys effaith datblygiadau arfaethedig o fewn lleoliadau'r asedau hanesyddol hyn.[22]

**1.24** Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar gynigion datblygu penodol sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, parciau, gerddi a thirweddau cofrestredig a Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u gosodiad.[23] Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio yw ystyried effeithiau datblygiadau arfaethedig o fewn gosodiadau adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, henebion anghofrestredig o bwys cenedlaethol ac asedau hanesyddol eraill nas dynodwyd.

---

17 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 194.
18 Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio, Cadw, Llywodraeth Cymru.
19 Mae Archwilio (www.archwilio.org.uk/wp/?lang=cy) yn galluogi pobl i weld y wybodaeth graidd a geir yn y y cofnodion amgylchedd hanesyddol ac ategir hyn gan ragor o ddeunydd a ddelir gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.
20 Y porth gwe i'r wybodaeth hon yw Coflein (www.coflein.gov.uk/cy/).
21 Ni fydd yr holl weddillion archaeolegol o bwys cenedlaethol yn cael eu cofrestru – gweler Polisi Cynllunio Cymru, paragraffau 6.1.23 – 6.1.27.
22 Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
23 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, (fel y'i diwygiwyd).

**1.25** Mae gosodiad ased hanesyddol yn cynnwys yr ardal o'i amgylch lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos. Nid oes iddo faint penodedig a gall newid wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch esblygu. Gall elfennau gosodiad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol i arwyddocâd ased, gallant effeithio ar y gallu i werthfawrogi'r arwyddocâd hwnnw neu gallant fod yn niwtral.[24] Nid yw gosodiad yn ased hanesyddol yn ei rinwedd ei hun ond mae ganddo werth sy'n deillio o'r ffordd y gall elfennau gwahanol gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.[25]

**1.26** Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddarparu digon o wybodaeth i'r awdurdod cynllunio fedru asesu effaith ei gynigion ar osodiad henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, neu safleoedd eraill o bwys cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion asesu hyn yr un mor berthnasol i bob ased hanesyddol ni waeth beth fo'i ddynodiad. Ar gyfer unrhyw ddatblygiad o fewn gosodiad ased hanesyddol, ymhlith rhai o'r ffactorau y dylid eu hystyried a'u pwyso a'u mesur mae:

- arwyddocâd yr ased a chyfraniad y gosodiad at yr arwyddocâd hwnnw
- amlygrwydd yr ased hanesyddol
- oes ddisgwyliedig y datblygiad arfaethedig
- maint y gorchudd coed a pha mor hir y mae'n debygol o fyw
- ffactorau anweledol sy'n effeithio ar osodiad yr ased hanesyddol, megis sŵn.

Dylai'r awdurdod cynllunio fod yn gallu rhoi arweiniad i'r ymgeisydd yn ystod trafodaethau ymgeisio ar faint o wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cynnig. Gallai hynny gynnwys darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ased hanesyddol.[26] Dylid hefyd, wrth gynnal unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio, ystyried sut y bydd yr ymgeisydd yn ymdrin â gosodiad ased hanesyddol.

**1.27** Ymhlith y ffactorau eraill a all effeithio ar osodiad ased hanesyddol mae rhyngweledэdd â nodweddion hanesyddol neu naturiol eraill, llonyddwch, sŵn neu waith datblygu arall a allai lygru er ei bod yn bosibl nad yw'n cael fawr ddim effaith weledol.

**1.28** Bydd achosion lle y bydd datblygiad arfaethedig yn gwella gosodiad ased hanesyddol a chaiff hyn ei drin fel mantais sy'n deillio o'r datblygiad. Gellid lliniaru effeithiau niweidiol drwy waith dylunio da ac, mewn rhai achosion, fesurau sgrinio neu dirweddu.

**1.29** Bydd angen i'r awdurdod cynllunio wneud ei asesiad ei hun o'r effaith o fewn gosodiad ased hanesyddol neu ar ôl ystyried ymatebion ymgyngoreion. Rhaid i'r awdurdod sy'n rhoi cydsyniad lunio barn, fesul achos, ynghylch p'un a all datblygiad arfaethedig amharu ar osodiad ased hanesyddol, neu a all wella'r gosodiad neu gael effaith niwtral arno drwy ddileu datblygiad amhriodol neu ddefnydd tir sy'n bodoli eisoes.

---

24 Mae hyn yn ehangu ar y diffiniad a ddarparwyd yn yr Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn Gynaliadwy.

25 Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

26 Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

## Cadwraeth Natur a'r Amgylchedd Hanesyddol

**1.30** Mae cysylltiadau annatod rhwng yr amgylcheddau naturiol a hanesyddol. Mae gweithgarwch dynol yn y gorffennol wedi dylanwadu ar yr holl gynefinoedd sy'n cynnal bioamrywiaeth Cymru i ryw raddau.[27]

**1.31** Yr effeithiau posibl cyffredin ar fywyd gwyllt wrth weithio ar adeiladau hanesyddol yw'r rhai ar ystlumod sy'n clwydo, adar sy'n bridio a fflora sy'n gysylltiedig â waliau wedi'u plastro â morter calch. Gall gweithgarwch clirio llystyfiant neu waith sylfaen sy'n gysylltiedig â gwaith ar safle archaeolegol neu waith sy'n gysylltiedig ag adeilad hanesyddol neu waith atgyweirio ar adeilad hanesyddol effeithio ar rywogaethau gwarchodedig megis pathewod, ymlusgiaid ac amffibiaid neu darfu ar adar sy'n bridio.

**1.32** Mae dyletswydd ar ymgeiswyr i sicrhau na fydd eu gwaith arfaethedig yn arwain at effeithiau negyddol ar fywyd gwyllt a allai olygu eu bod yn cyflawni trosedd.[28] Dylent hefyd fod yn ymwybodol y gall ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar asedau hanesyddol fod yn gysylltiedig â darn o dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cadwraeth natur megis Ardal Cadwraeth Arbennig neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a bydd angen iddynt ystyried yr holl ofynion deddfwriaethol perthnasol. Wrth asesu cais am ganiatâd cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth neu gydsyniad heneb gofrestredig, mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys benderfynu a yw'r ymgeisydd wedi rhoi sylw dyledus i effaith ei gynigion ar gadwraeth natur.

**1.33** Mae'n bwysig mynd ati'n gynnar i nodi a oes angen cynnal unrhyw arolwg ecolegol a dylai'r mater hwn fod yn rhan o unrhyw drafodaeth cyn ymgeisio.[29] Os gwelir bod yno rywogaethau gwarchodedig, gall fod angen rhoi trwyddedau.[30] Gall y trwyddedau hyn gynnwys amodau sy'n arwain at addasiadau i ymchwiliadau cyn ymgeisio ac i'r gwaith arfaethedig. Lle y bo'n bosibl, dylai'r addasiadau i gynllun gwaith gael eu gwneud cyn cyflwyno unrhyw gais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth neu gydsyniad heneb gofrestredig.

**1.34** Ar gyfer ceisiadau cynllunio lle mae angen arolwg ecolegol, dim ond y ceisiadau lle y caiff yr arolwg hwn ei ddarparu gan yr ymgeisydd y bydd yr awdurdod cynllunio yn eu dilysu.[31]

---

27 Rhoddir canllawiau ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol yn Nodyn Cyngor Technegol 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio.

28 Fel y nodwyd yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992.

29 Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio adran 4.2.2.

30 Rheoliadau Diogelu Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

31 Mae Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru, Atodiad Adran 7 yn cynnwys rhestr o ofynion dilysu ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan gynnwys manylion am ble mae arolwg ecoleg (bioamrywiaeth) yn ofynnol.

# 2 Cynlluniau Datblygu Lleol

## Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol

**2.1** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth lunio cynlluniau datblygu lleol. Mae hyn yn cynnwys y sylw y dylid ei roi i bolisïau cenedlaethol ar yr amgylchedd hanesyddol a'r angen i gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer gwarchod a gwella asedau hanesyddol, os yw hynny'n briodol. Mae'r polisïau cenedlaethol a lleol hyn yn rhan bwysig o'r fframwaith ar gyfer ystyried cynigion datblygu unigol a byddant yn rhoi arweiniad i ddatblygwyr ar baratoi ceisiadau cynllunio.

**2.2** Mae cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ofyniad gorfodol wrth lunio cynllun datblygu lleol[32] ac mae'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol.[33] Rhaid iddo ystyried yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o'i ystyriaeth ehangach o amgylchedd ardal y cynllun. Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ddefnyddio gwybodaeth gyfredol a gafwyd o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.[34] Mae Cadw yn ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**2.3** Rhaid i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol gynnwys targedau a dangosyddion ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun datblygu lleol. Dylai monitro materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol fod yn rhan o'r broses hon. Dylai cwmpas a chynnwys unrhyw ddangosyddion a gynhwysir yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ar yr amgylchedd hanesyddol fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac amgylchiadau lleol.

**2.4** Gall awdurdod cynllunio ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gallai canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel y rhai canlynol:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd[35]
- Ardaloedd Archaeolegol Sensitif — lle mae'n debygol y bydd gweddillion archaeolegol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio (gweler adran 4);
- rhestr o asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol arbennig[36]
- disgrifio nodweddion er mwyn llywio'r gwaith o adfywio neu wella canol trefi[37]
- llunio canllawiau ar gyfer briffiau datblygu sy'n cynnwys asedau hanesyddol pwysig[38]
- cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.[39]

---

32 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 19(5) a 62(6) a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (3ydd argraffiad), Pennod 4.
33 Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.
34 Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio, Cadw, Llywodraeth Cymru.
35 Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
36 Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Arbennig Lleol yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
37 Rheoli Nodweddion Trefol Hanesyddol, Cadw, Llywodraeth Cymru.
38 Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio adran 5.6 Yr Amgylchedd Hanesyddol.
39 Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

# 3 Safleoedd Treftadaeth y Byd

**3.1** Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu harysgrifio o dan Gonfensiwn UNESCO ar *Amddiffyn Treftadaeth Diwylliannol a Naturiol y Byd (1972)* (y cyfeirir ato fel arfer fel *Confensiwn Treftadaeth y Byd*). Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y confensiwn ym 1984 a hi yw'r 'Parti Gwladol' ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y Deyrnas Unedig.

**3.2** Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn lleoedd o Werth Cyffredinol Eithriadol. Ystyr Gwerth Cyffredinol Eithriadol yw 'cultural and/or natural significance which is so exceptional as to transcend national boundaries and to be of common importance for present and future generations of all humanity'.[40] Yn ogystal â bodloni meini prawf penodol i gael eu dewis, rhaid i Safleoedd Treftadaeth y Byd ddangos cyfanrwydd, dilysrwydd a bod ganddynt systemau gweithredol ar gyfer diogelu a rheoli yn briodol.

**3.3** Mae gan rai Safleoedd Treftadaeth y Byd glustogfa o amgylch eu ffiniau neu ynghlwm wrthynt, sy'n cael ei defnyddio fel dull rheoli er mwyn helpu i warchod Safle Treftadaeth y Byd. Nid yw'r glustogfa ei hun o Werth Cyffredinol Eithriadol ond gellir ei defnyddio i nodi ardaloedd lle mae angen i ddatblygwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried effeithiau posibl yn ofalus.

**3.4** Ar hyn o bryd, mae pedwar Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, sef Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (a arysgrifiwyd ym 1986), Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (a arysgrifiwyd yn 2000) a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (a arysgrifiwyd yn 2009) a Thirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru (arysgrifiwyd 2021).

## Egwyddorion a Pholisïau ar gyfer Gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd

**3.5** Cyflwynir amcanion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Polisi Cynllunio Cymru.[41]

**3.6** Rhaid i awdurdodau cynllunio warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy reoli gwaith datblygu ar y safleoedd hynny ac yn agos atynt yn ofalus. Rhaid bod gan bob Safle Treftadaeth y Byd gynllun rheoli sy'n nodi sut y dylid ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.[42] Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar y datblygiadau hynny sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.[43]

**3.7** Mae'r dull o warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy yn seiliedig ar ddynodi asedau hanesyddol penodol o fewn pob safle yn statudol, cydweithio i lunio cynlluniau rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u rhoi ar waith a defnyddio'r system gynllunio i arwain gwaith datblygu priodol.[44]

---

40 UNESCO, Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention, paragraff 49.
41 Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6 paragraffau 6.1.6 a 6.1.22.
42 UNESCO, Operational Guidelines, paragraffau 108-109 a Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
43 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthyglau 14 a 15 a pharagraff (l)(v) o'r tabl yn Atodlen 4 (fel y'i diwygiwyd).
44 Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

**3.8** Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried polisïau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd. Os oes Safle Treftadaeth y Byd dynodedig mewn ardal awdurdod cynllunio, dylid adlewyrchu hynny ym mholisïau a strategaethau'r awdurdod ar gyfer datblygu economaidd, adfywio a thwristiaeth. Rhaid rhoi sylw i bolisïau ar Safleoedd Treftadaeth y Byd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ddynodiadau o'r fath. Dylid rhoi cryn bwyslais ar yr angen i warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'n cenhedlaeth ein hunain. Felly, mae a wnelo rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn effeithiol â nodi a hyrwyddo newid a fydd yn cadw ac yn gwella ei Werth Cyffredinol Eithriadol ac addasu neu liniaru newidiadau arfaethedig a allai newid y gwerthoedd hynny.

**3.9** Lle bo angen, dylai polisïau ar gyfer gwarchod Safle Treftadaeth y Byd penodol a'i ddefnyddio'n gynaliadwy fod yn gymwys i'r safle ei hun ac, fel y bo'n briodol, i'w osodiad, gan gynnwys unrhyw glustogfa neu barth cyfatebol.

**3.10** Lleolir pob un o'r pedwar Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru o fewn mwy nag un awdurdod cynllunio, felly mae cydweithrediad rhwng awdurdodau yn hanfodol. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw i'r awdurdodau cynllunio perthnasol fabwysiadu polisïau cyson yn eu cyfryw Gynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer gwarchod Safle Treftadaeth y Byd, ei osodiad a'i glustogfa a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd gydweithio i baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol a rennir, sy'n rhoi canllawiau cynllunio cyson ar ragor o fanylion i'w hystyried wrth arwain gwaith datblygu yn y dyfodol.[45]

## Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd

**3.11** Rhaid i awdurdodau cynllunio ddilyn canllawiau gweithredol UNESCO, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Safle Treftadaeth y Byd fod â chynllun rheoli priodol.[46]

**3.12** Dylai'r cynllun rheoli nodi amcanion byrdymor, tymor canolig a hirdymor i warchod, cadw a chyflwyno'r Safle Treftadaeth y Byd. Mae dull integredig o gynllunio a rheoli yn hanfodol er mwyn llywio datblygiad eiddo dros amser, gan gadw pob agwedd ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol ar yr un pryd.

**3.13** Mae'n arfer da mabwysiadu'r cynllun rheoli cyfan neu ran ohono fel canllawiau cynllunio ategol.

## Cynigion Datblygu ar Safleoedd Treftadaeth y Byd

**3.14** Mae effeithiau datblygiad arfaethedig ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad ac, lle y bo'n bodoli, glustogfa Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth berthnasol bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

---

45 Mae Dogfen Cynllunio Ategol Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, a fabwysiadwyd yn 2012 ac a ddiwygiwyd yn 2013, yn enghraifft o ganllawiau o'r fath (www.denbighldp.co.uk/Webfiles/SPG/spg26.pdf).

46 UNESCO Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention, paragraff 108.

**3.15** Ystyrir bod Safle Treftadaeth y Byd yn 'ardal sensitif' o dan y *Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol*.[47] Mae Atodlen 3(2)(viii) o'r Rheoliadau hyn yn nodi bod 'tirweddau o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol neu archaeolegol' yn un o'r meini prawf dethol ar gyfer sgrinio datblygiadau a nodir yn Atodlen 2. Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn dirweddau o'r fath. Bydd awdurdodau cynllunio yn ystyried hyn pan ofynnir iddynt roi barn sgrinio ynghylch p'un a yw datblygiad arfaethedig yn dod o dan Atodlen 2 sy'n golygu bod angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer. Pan fydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, dylai gynnwys asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ddefnyddio methodoleg sy'n canolbwyntio ar werthuso effaith y datblygiad ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a'r nodweddion sy'n cyfrannu ato.[48]

**3.16** Ym mhob achos sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad, yr arfer gorau yw cynnal trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r awdurdod cynllunio er mwyn sicrhau bod goblygiadau'r cynnig yn cael eu deall yn llawn a'u hadlewyrchu mewn dogfennau ategol.[49] Bydd angen llunio datganiad dylunio a mynediad ar gyfer datblygiadau penodol o fewn Safle Treftadaeth y Byd, gan gynnwys darparu un neu fwy o anhedd-dai neu ddarparu adeilad neu adeiladau lle bo'r arwynebedd llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 100 o fetrau sgwâr neu'n fwy.[50] Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar geisiadau cynllunio sy'n debygol o effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.[51]

**3.17** Os oes clustogfa'n bodoli, mae'n diffinio gosodiad uniongyrchol Safle Treftadaeth y Byd, golygfeydd pwysig ac ardaloedd neu nodweddion eraill sy'n swyddogaethol bwysig o ran gwarchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r glustogfa yn amlygu ardaloedd lle mae angen ystyried effeithiau posibl yn ofalus er mwyn osgoi cael effaith andwyol ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Hefyd, bydd cynigion datblygu o faint, uchder neu amlygrwydd a allai hefyd amharu ar osodiad Safle Treftadaeth y Byd ac a leolir y tu allan i unrhyw glustogfa. Ystyrir sut i asesu effeithiau ar osodiad ased hanesyddol, megis Safle Treftadaeth y Byd, ym mharagraffau 1.23 i 1.29 o'r Nodyn Cyngor Technegol hwn.

---

47 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.
48 Mae canllawiau ar Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth i'w gweld ar wefan ICOMOS (www.icomos-uk.org/world-heritage/).
49 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
50 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthyglau 2 a 9(1)( fel y'i diwygiwyd).
51 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthyglau 14 a 15 a pharagraff (l)(v) o'r tabl yn Atodlen 4 (fel y'i diwygiwyd).

# 4 Gweddillion Archaeolegol

## Pwysigrwydd Gweddillion Archaeolegol a'u Cofnodion

**4.1** Mae gweddillion archaeolegol yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu. Maent, yn aml, yn fregus iawn ac yn agored i gael eu difrodi a'u dinistrio. Gweddillion archaeolegol, sy'n ganlyniad i weithgarwch dynol dros filoedd o flynyddoedd, yw'r unig dystiolaeth o'n gorffennol cynhanesyddol ac maent yn ategu cofnodion hanesyddol o'r 2,000 o flynyddoedd diwethaf. Mae gweddillion archaeolegol yn cynnwys tystiolaeth sydd wedi'i chladdu dan y ddaear ac adeiladwaith adeiladau hanesyddol a strwythurau eraill sydd wedi goroesi. Nid yw eu pwysigrwydd, fel tystiolaeth o ddatblygiad ein gwareiddiad yn y gorffennol ac fel rhan o hunaniaeth Cymru, yn ymwneud, o reidrwydd, â'u maint, eu natur weladwy na'u poblogrwydd.

## Gweddillion Archaeolegol a'r Broses Rheoli Datblygu

**4.2** Mae gwarchod gweddillion archaeolegol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygu sy'n effeithio ar henebion cofrestredig neu weddillion archaeolegol eraill o bwys cenedlaethol, dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu diogelu'n ffisegol yn y fan a'r lle, h.y. rhagdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n golygu gwneud newidiadau mawr neu'n achosi difrod, neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar osodiad gweddillion (gweler Atodiad A). Mewn achosion sy'n ymwneud â gweddillion archaeolegol llai pwysig, bydd angen i awdurdodau cynllunio bwyso a mesur pwysigrwydd perthynol y gweddillion archaeolegol a'u osodiadau yn erbyn ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygu arfaethedig.

**4.3** Lle y gallai datblygiad ddatgelu gweddillion archaeolegol, gan gynnwys tystiolaeth paleoamgylcheddol, tarfu arnynt neu eu dinistrio, mae'n bwysig manteisio ar gyfleoedd i gofnodi tystiolaeth archaeolegol ac na chaiff gweddillion archaeolegol eu dinistrio yn ddiangen. Ni ddylai'r gallu i gofnodi tystiolaeth o'r fath fod yn ffactor wrth benderfynu a ddylid caniatáu tynnu gweddillion oddi yno dan reolaeth.

**4.4** Gellir cysoni anghenion archaeolegol a datblygu a gellir osgoi gwrthdaro posibl rhwng cynigion ar gyfer datblygu a'r nod o ddiogelu gweddillion archaeolegol pwysig yn aml drwy drafodaethau cyn ymgeisio. Dylai'r trafodaethau hyn fod rhwng yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio, eu cynghorwyr archaeolegol ac, mewn achosion lle y gellir effeithio ar henebion cofrestredig, Cadw. Yn achos yr awdurdodau lleol hynny nad oes ganddynt gynghorwyr archaeolegol mewnol, gallent ddefnyddio arbenigedd a chyngor cynghorwyr curadurol Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru.

**4.5** Os oes posibilrwydd bod y safle yn cynnwys gweddillion archaeolegol, anogir ymgeiswyr i ymgynghori â Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru[52] a cheisio cyngor gan gynghorydd archaeolegol yr awdurdod cynllunio yn gynnar yn y broses o ystyried eu cynnig datblygu. Bydd hyn yn helpu i bennu p'un a allai'r cynnig effeithio ar weddillion archaeolegol hysbys. Ar gyfer datblygiadau mawr penodol bydd angen cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio â'r awdurdod cynllunio a, phan fydd angen cyngor arbenigol, Weinidogion Cymru drwy Cadw.[53]

---

52 Cynhelir cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

53 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd).

**4.6** O dan amgylchiadau eithriadol, pan fydd awdurdod cynllunio yn ymwybodol o fygythiad i safle archaeolegol hysbys oherwydd y posibilrwydd y caiff hawliau datblygu a ganiateir eu harfer, efallai y bydd am ystyried defnyddio ei bwerau i dynnu'r hawliau hynny yn ôl a mynnu y ceir caniatâd cynllunio cyn y gall y datblygiad fynd yn ei flaen.[54]

**4.7** Os yw'n hysbys bod gweddillion archaeolegol yn bodoli, neu os tybir ei bod yn debygol eu bod yn bodoli, ac nid yw'r ymgeisydd eisoes wedi cynnal astudiaeth, dylai'r awdurdod cynllunio ofyn i'r ymgeisydd gynnal asesiad archaeolegol pen desg, a gwerthusiad archaeolegol lle y bo hynny'n briodol. Dylai hyn gael ei wneud gan arbenigwr cymwysedig a chymwys i'r safon briodol.[55] Bydd adroddiadau'r ymchwiliadau hyn yn rhan o'r cais cynllunio. Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi addasu eu cynigion datblygu er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol ar y gweddillion archaeolegol a nodwyd, a dylent ddangos hefyd sut y maent yn bwriadu lliniaru unrhyw effeithiau negyddol sy'n weddill.

**4.8** Dylid trafod yr angen am asesiad pen desg, a gwerthusiad maes lle y bo'n briodol, gyda'r awdurdod cynllunio cyn cyflwyno cais, a lle y bo angen astudiaethau o'r fath, dylid cyflwyno'r canlyniadau fel rhan o'r cais cynllunio. Gall methu â darparu digon o wybodaeth archaeolegol o'r safon briodol fod yn rheswm dilys i'r awdurdod cynllunio wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

**4.9** Wrth ystyried ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar weddillion archaeolegol hysbys neu bosibl, dylai'r awdurdod cynllunio ymgynghori â'i gynghorydd archaeolegol,[56] ynghylch effaith y datblygiad, gan gynnwys y maint a niwed posibl, ar weddillion archaeolegol a/neu a yw'r mesurau lliniaru a gynigiwyd yn ddigonol. Mae'r ddau ffactor hyn yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar y cais cynllunio. Pan fo cais cynllunio yn effeithio'n uniongyrchol ar heneb gofrestredig neu ei osodiad, mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw.[57]

**4.10** Mae'n rhaid asesu'r ddadl dros ddiogelu gweddillion archaeolegol na thybir eu bod yn bodloni'r meini prawf o ran pwys cenedlaethol (gweler Atodiad A.2) ar sail rhinweddau unigol pob achos. Dylai'r awdurdod cynllunio ystyried y polisïau a'r ystyriaethau perthnasol a'u pwyso a'u mesur yn erbyn buddiannau'r datblygiad arfaethedig a'r angen amdano. Mewn achosion lle y ceir materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol, gall ceisiadau gael eu galw i mewn er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt.[58]

---

54 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, erthygl 4 (fel y'i diwygiwyd).

55 Mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio yng Nghymru ddefnyddio safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyfer asesiadau desg a gwerthusiadau maes (www.archaeologists.net/codes/ifa).

56 Safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyngor archaeolegol a roddir gan wasanaethau amgylchedd hanesyddol (www.archaeologists.net/codes/ifa) a, lle y bo'n berthnasol, Curators Code of Conduct a luniwyd gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru (www.heneb.org.uk/wp-content/uploads/2025/12/Heneb-Advisors-Code-of-Practice.pdf).

57 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthyglau 14 a 15 a pharagraff (l)(i) a (ii) o'r tabl yn Atodlen 4 (fel y'i diwygiwyd).

58 Polisi Cynllunio Cymru, adran 1.35.

## Diogelu Gweddillion Archaeolegol, neu eu diogelu'n rhannol, yn y fan a'r lle

**4.11** Gellir cymryd camau i leihau effaith cynnig datblygu ar weddillion archaeolegol a nodwyd a'i gwneud yn bosibl iddynt gael eu diogelu yn y fan a'r lle. Er enghraifft, gellir adleoli'r agweddau hynny ar gynnig a allai achosi difrod, megis draeniau a gwasanaethau eraill. Yn yr un modd, gellir ailgynllunio sylfeini fel na fyddant yn treiddio i haenau archaeolegol, neu efallai y bydd gosod pyst sylfeini gan ddefnyddio ebill yn fwy derbyniol na gwaith cloddio dwfn ar raddfa fawr. Wrth ystyried yr atebion hyn, mae'n rhaid i awdurdod cynllunio ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, megis newidiadau i hydroleg neu gemeg pridd safle, a bod yn hyderus y gellir dileu'r datblygiad yn y dyfodol heb effeithiau ychwanegol ar y gweddillion claddedig. Mewn rhai achosion, gall fod yn bosibl diogelu gweddillion archaeolegol yn rhannol. Fodd bynnag, nid yw gadael 'ynysoedd' o archaeoleg warchodedig yn ddymunol. Gall gwaith dylunio gofalus hefyd leihau'r effaith ar osodiad, drwy leoli'r datblygiad yn fanwl, ystyried golwg allanol, defnyddio mesurau sgrinio neu liniaru effaith weledol y cynigion drwy ddileu elfennau hyll sy'n bodoli eisoes.

## Cofnodi Tystiolaeth Archaeolegol a Meithrin Dealltwriaeth Ohoni

**4.12** Ar ôl ystyried yr holl bolisïau a'r ystyriaethau perthnasol eraill a'r angen am y datblygiad, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu nad yw'r gweddillion archaeolegol yn ddigon pwysig i gyfiawnhau eu diogelu'n ffisegol. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio ei fodloni ei hun y caiff y trefniadau angenrheidiol a chymesur ar gyfer cloddio a chofnodi'r gweddillion archaeolegol hyn eu sicrhau ac y caiff canlyniadau'r gwaith archaeolegol hwn eu dadansoddi'n briodol a'u cyhoeddi[59] a bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer adneuo'r archif sy'n deillio o'r gwaith hwnnw yn unol â'r safonau priodol.[60] Gall yr awdurdod cynllunio sicrhau y bydd hyn yn digwydd drwy gyhoeddi briff sy'n nodi cwmpas y gwaith archaeolegol sydd ei angen, a ddylai gael ei lunio mewn ymgynghoriad â'i gynghorydd archaeolegol.

**4.13** Fel arfer, bydd amodau cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gomisiynu arbenigwr cymwysedig a chymwys i gyflwyno cynllun ysgrifenedig o ymchwil archaeolegol sy'n disgrifio camau gwahanol y gwaith ac yn dangos bod yr holl adnoddau priodol a digon o amser wedi'u neilltuo ar ei gyfer.[61] Wrth gymeradwyo'r cynllun ysgrifenedig hwn o waith ymchwil, bydd yr awdurdod cynllunio yn nodi pwy fydd yn gweithredu fel cynghorydd archaeolegol[62] ar gyfer y rhaglen, sut y caiff ei monitro yn ystod y cam cloddio/gwaith maes a'r cam ar ôl cloddio/gwaith maes, a sut y caiff pob cam ei ardystio fel un sy'n bodloni'r amodau cynllunio. Efallai y bydd angen diwygio'r cynllun ysgrifenedig o waith ymchwil rhwng y cais amlinellol a'r cais cynllunio llawn, a bydd angen ei adolygu'n rheolaidd wrth gyflawni'r amodau.

---

59 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio yng Nghymru ddefnyddio safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyfer gwaith cloddio (www.archaeologists.net/codes/ifa).

60 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell defnyddio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Archifau Archaeolegol yng Nghymru (www.welshmuseumsfederation.org/cy/newyddion/adnoddau-hafan/Casgliadau/y-safon-genedlaethol-a-chanllawiau-arfer-gorau-ar-gyfer-casglu-ac-adneuo-archifau-archaeolegol-yng-nghymru-2017.html).

61 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru, Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, 016/2014, Hydref 2014, amodau 22–4.

62 Fel arfer, cynghorydd archaeolegol mewnol yr awdurdod cynllunio neu adran guradurol Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru fyddai'r cynghorydd.

**4.14** Dylid cynnal unrhyw raglen o waith cloddio a chofnodi archaeolegol cyn dechrau gweithio ar y datblygiad, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu nad yw hyn yn bosibl. O dan amgylchiadau penodol, e.e. os oes rhywun yn defnyddio'r safle, gellid integreiddio'r gwaith yng ngham cychwynnol y gwaith sylfaen a'r gwaith dymchwel ar ôl dod i gytundeb ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio a'i gynghorwyr archaeolegol. Mae'n rhaid i'r datblygwr roi digon o amser i'r contractwr archaeolegol gwblhau'r gwaith ar y safle i'r safon briodol cyn rhoi mynediad rhydd i'r prif gontractwr i'r rhan honno o'r datblygiad. Gellir cytuno ar friff gwylio archaeolegol fel rhan o'r cynllun ysgrifenedig o waith ymchwil neu gall fod yn destun amod cynllunio[63] a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i waith o'r fath gael ei wneud tra bo'r datblygiad yn mynd rhagddo.[64] Nid yw cyfrifoldebau'r ymgeisydd wedi'u cyflawni'n derfynol nes bod y canlyniadau wedi'u dadansoddi a'u cyhoeddi a bod yr archif wedi cael ei hadneuo.

**4.15** Gall methu â chydymffurfio ag amodau cynllunio archaeolegol arwain at gamau gorfodi yn yr un ffordd ag unrhyw achos arall o dorri rheolaeth gynllunio.

## Darganfyddiadau Archaeolegol Annisgwyl

**4.16** Dylai fod gan ddatblygwyr gynllun wrth gefn i ymdrin â darganfyddiadau archaeolegol annisgwyl a dylent allu galw ar gyngor archaeolegol pan fo'i angen. Bydd angen i'r datblygwr, yr awdurdod cynllunio a'u cynghorwyr archaeolegol gytuno ar fesurau adfer priodol.

**4.17** Os ystyrir bod darganfyddiadau archaeolegol annisgwyl o bwys cenedlaethol, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gofrestru'r safle (gweler Atodiad A). Pe bai safle yn cael ei gofrestru, mae'n rhaid i'r datblygwr geisio cydsyniad heneb gofrestredig ar wahân cyn y gellir parhau â'r gwaith. Gall yr awdurdod cynllunio a Gweinidogion Cymru hefyd ddirymu neu addasu caniatâd cynllunio o dan yr amgylchiadau hyn, ac os byddant yn gwneud hynny, mae darpariaeth ar gyfer digolledu'r datblygwr am golli gwerth ac am wariant yr aed iddo.[65]

---

63 Gweler Cylchlythyr 016/2014 Model Conditions 22 a 23 am enghreifftiau o amodau ar gyfer briff gwylio archaeolegol.

64 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio yng Nghymru ddefnyddio safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyfer briff gwylio archaeolego (www.archaeologists.net/sites/default/files/CIfAS&GWatchingbrief_2.pdf).

65 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 97, 100 a 107 (fel y'u diwygiwyd).

# 5 Adeiladau Rhestredig

## Dynodi Adeilad Rhestredig

**5.1** Mae adeiladau rhestredig yn asedau o bwys cenedlaethol sy'n ffynhonnell unigryw o wybodaeth am y gorffennol ac sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ansawdd a chymeriad tirweddau a threfweddau Cymru. Caiff adeiladau eu rhestru pan ystyrir eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

**5.2** Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gynnal rhestr o unrhyw adeiladau sydd, yn eu barn nhw, yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig (gweler Atodiad B).[66] Ychwanegir adeiladau at y rhestrau statudol (ar gael drwy Cof Cymru[67]) naill ai o ganlyniad i arolwg systematig o ardaloedd penodol neu fathau penodol o adeiladau, neu yn dilyn ceisiadau gan awdurdodau lleol, cymdeithasau amwynder, cyrff eraill, neu unigolion, sy'n ymwneud ag adeiladau penodol (rhestru yn y fan a'r lle). Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r penderfyniad i restru adeilad fod yn seiliedig ar ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig yr adeilad. Mae rhagor o wybodaeth am adeiladau rhestredig ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.[68]

**5.3** Mae'r rhestrau yn cynnwys disgrifiad o bob adeilad, a ddarperir yn bennaf er mwyn helpu i adnabod yr adeilad hwnnw. Gall disgrifiadau rhestr dynnu sylw at nodweddion yr adeilad a arweiniodd at ei restru, ac esbonio pam mae'r adeilad o ddiddordeb arbennig, ond ni fwriedir iddynt ddarparu cofnod cynhwysfawr o'r holl nodweddion pwysig. Serch hynny, gall nodweddion na sonnir amdanynt yn y disgrifiad rhestr fod o ddiddordeb arbennig, ac mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad cyn y gellir eu tynnu neu eu newid.

**5.4** Dylai ceisiadau am restru adeiladau yn y fan a'r lle dynnu sylw at unrhyw dystiolaeth newydd y mae'n bosibl nad oedd ar gael yn flaenorol, neu fel arall esbonio pam mae'n bosibl bod diddordeb arbennig yr adeilad wedi'i ddiystyru. Weithiau gall tystiolaeth newydd gyfiawnhau ailystyried penderfyniad blaenorol i beidio â rhestru adeilad, ond mae penderfyniadau cynharach yn annhebygol o gael eu hadolygu oni ddarperir tystiolaeth o'r fath. Er yr ystyrir pob cais i restru adeilad yn y fan a'r lle, mae'n well asesu adeiladau cyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Yn aml gall cynigion ar gyfer rhestru adeiladau yn y fan a'r lle a wneir pan fydd yr adeiladau hynny'n wynebu'r bygythiad uniongyrchol o gael eu haddasu neu eu dymchwel, arwain at oedi, weithiau gyda chanlyniadau ymarferol ac ariannol difrifol i'r datblygwr.

**5.5** Gellir hefyd wneud ceisiadau i dynnu adeiladau oddi ar y rhestr, ond dim ond yng ngoleuni tystiolaeth newydd sy'n ymwneud â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad y cânt eu hystyried. Nid yw cyflwr yr adeilad, na chost ei atgyweirio neu ei gynnal a'i gadw, fel arfer yn rhesymau dros ei dynnu oddi ar y rhestr: os oes cynigion datblygu, y ffordd fwyaf priodol o ddatrys y problemau hyn yw drwy'r broses cydsyniad adeilad rhestredig. Fel arfer, ni chaiff ceisiadau i dynnu adeiladau oddi ar y rhestr eu hystyried os yw'r adeilad yn destun cais am gydsyniad adeilad rhestredig, neu apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi cydsyniad, neu os yw awdurdod cynllunio wedi dechrau cymryd camau oherwydd gwaith nas awdurdodwyd neu

---

66 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), adran 76.

67 Cof Cymru (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw).

68 Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (http://www.coflein.gov.uk/).

esgeulustod. Mae gweithdrefnau apelio mewn perthynas â gorfodaeth a chydsyniad adeilad rhestredig yn rhoi hawl i apelyddion ddadlau nad yw adeilad o ddiddordeb arbennig ac y dylid ei dynnu oddi ar y rhestr, a dylid mynd i'r afael â mater dadrestru yn y ffordd hon fel arfer.

**5.6** Os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid cynnwys adeilad ar y rhestr neu dynnu un oddi ar y rhestr mae'n rhaid iddynt ymgynghori â pherchennog a meddiannydd yr adeilad, yr awdurdod cynllunio ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol gan fod ganddynt wybodaeth arbennig am adeiladau o ddiddordeb hanesyddol pensaernïol neu ddiddordeb arbennig ynddynt. Mae gwarchodaeth interim yn gymwys o ddechrau'r cyfnod ymgynghori.[69] Mae darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (heblaw am ddarpariaethau sy'n ymwneud â chaffael adeiladau rhestredig yn orfodol a'r drosedd o ddifrodi'n fwriadol adeilad rhestredig[70]) yn cael yr un effaith â phe bai'r adeilad yn adeilad rhestredig. Felly, mae pob trosedd arall o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gweithiau anawdurdodedig yn gymwys. Mae gan berchenogion a deiliaid hefyd gyfle i wneud cais am adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i restru adeilad.[71]

**5.7** Mae gan awdurdodau cynllunio y pŵer i gyflwyno hysbysiadau rhestru dros dro pan fyddant o'r farn bod adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a'u bod mewn perygl o gael eu dymchwel neu eu haddasu mewn ffordd a fydd yn effeithio ar eu cymeriad arbennig. Tra bydd hysbysiad rhestru dros dro mewn grym, bydd holl ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (ac eithrio darpariaethau sy'n ymwneud â chaffael adeiladau rhestredig yn orfodol a'r drosedd o ddifrodi'n fwriadol adeiladau rhestredig) yn cael yr un effaith â phe bai'r adeilad yn adeilad rhestredig. Felly, mae pob trosedd arall o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gweithiau anawdurdodedig yn gymwys. Daw'r hysbysiad rhestru dros dro i rym yn syth ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Dylid anfon copi o'r hysbysiad ynghyd â chynllun o'r lleoliad a ffotograffau at Cadw cyn gynted ag y bydd yr hysbysiad wedi'i gyflwyno, fel y gellir ystyried cynnwys yr adeilad ar y rhestr statudol. Mae'r hysbysiad yn dod i ben ar ddiwedd chwe mis oni bai ei fod wedi dod i ben yn gynharach. Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio nad ydynt yn bwriadu ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad, gall yr awdurdod cynllunio fod yn atebol i dalu iawndal am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli i gyflwyno'r hysbysiad. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried rhestru'r adeilad mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r perchenogion a'r meddianwyr. Mae gwarchodaeth interim yn disodli'r hysbysiad rhestru dros dro a chaiff atebolrwydd am iawndal os na chaiff yr adeilad ei restru ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru.[72]

**5.8** Gall Gweinidogion Cymru (drwy Cadw), o dderbyn cais gan unrhyw berson, gyflwyno tystysgrif yn nodi nad ydynt yn bwriadu rhestru adeilad am gyfnod o bum mlynedd.[73] Nid yw tystysgrif yn dileu'r gofyniad i wneud cais am gydsyniad ardal gadwraeth (gweler paragraffau 6.10-6.12 isod) i ddymchwel adeilad o'r fath mewn ardal gadwraeth. Os caiff tystysgrif ei rhoi, bydd Cadw yn hysbysu'r awdurdod cynllunio.

---

69 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), adrannau 78 i 80.
70 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), adrannau 118 a 137 i 142.
71 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), adrannau 81–82.
72 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 80 a 86.
73 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 87.

## Cydsyniad Adeilad Rhestredig

**5.9** Mae Deddf Hanes yr Amgylchedd (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw waith dymchwel, neu newid a/neu estyn a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gael ei awdurdodi drwy broses cydsyniad adeilad rhestredig.[74] Mae'n drosedd gwneud gwaith o'r fath heb gydsyniad, a dylid ei geisio oddi wrth yr awdurdod cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r nod ar gyfer adeiladau rhestredig fod i 'ganfod y ffordd orau o ddiogelu a gwella eu rhinweddau arbennig, gan barhau i'w defnyddio'n gynaliadwy.'[75]

**5.10** Wrth ystyried unrhyw gais am gydsyniad adeilad rhestredig mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi ystyriaeth benodol i ddymunoldeb diogelu'r adeilad neu ei osodiad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.[76] Nid oes angen cydsyniad ar gyfer gwaith atgyweirio fel arfer, oni bai bod y gwaith hwnnw'n cynnwys newidiadau a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Os oes ganddynt unrhyw amheuaeth, cynghorir perchenogion i gysylltu â'u hawdurdod cynllunio i ofyn am eglurhad ynghylch p'un a oes angen cydsyniad ai peidio.

**5.11** Mae'r rheolaethau sy'n gymwys i adeilad rhestredig hefyd yn gymwys i unrhyw wrthrychau neu strwythurau atodol sydd ar yr adeilad neu o fewn ei gwrtil.[77] Efallai y bydd angen ymdrin fesul achos â'r union ddiffiniad o osodiad a chwrtil ac mae wedi bod yn destun cyfraith achosion.

**5.12** Ceir rhai adeiladau sy'n rhestredig ac yn gofrestredig. Yn yr achosion hyn, bydd y dynodiad fel heneb gofrestredig yn cael blaenoriaeth a Gweinidogion Cymru (drwy Cadw) fydd yn penderfynu ar unrhyw gais am gydsyniad (gweler Atodiad A).[78]

**5.13** Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am gydsyniad adeilad rhestredig gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.[79] Mae'r datganiad hwn yn cynnwys canlyniadau asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, sef proses sydd â'r nod o sicrhau bod pwysigrwydd adeilad yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynlluniau i newid. Dylai asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur â phwysigrwydd yr adeilad rhestredig a maint y newid arfaethedig, a dylai'r datganiad roi digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod cynllunio i farnu pwysigrwydd ac effaith wrth ystyried ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig.

**5.14** Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig, dylai'r awdurdod cynllunio ystyried y materion canlynol:

- Pwysigrwydd a gradd yr adeilad a'i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol cynheni.
- Nodweddion ffisegol yr adeilad sy'n cyfiawnhau ei restru ac yn cyfrannu at ei arwyddocâd (er enghraifft ei ffurf a'i gynllun, ei ddeunyddiau, ei saernïaeth a'i fanylder), gan gynnwys unrhyw nodweddion pwysig, megis y tu mewn i'r adeilad, a all fod wedi dod i'r amlwg ar ôl i'r adeilad gael ei gynnwys ar y rhestr.

---

[74] Fe'i hamlinellir yn fanwl yn Atodiad B.
[75] Polisi Cynllunio Cymru, adran 6.1.11.
[76] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 96(2).
[77] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 76(5).
[78] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 88(3).
[79] Gweler Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

- Cyfraniad cwrtil a gosodiad yr adeilad at ei arwyddocâd, yn ogystal â chyfraniad yr adeilad at yr olygfa leol.
- Effeithiau'r gwaith arfaethedig ar arwyddocâd yr adeilad.
- I ba raddau y byddai'r gwaith yn dod â manteision cymunedol sylweddol, er enghraifft drwy gyfrannu at economi'r ardal neu at wella ei hamgylchedd lleol.

Gall y radd restredig fod yn ystyriaeth berthnasol, ond nid yw ynddi ei hun yn ganllaw dibynadwy i ba mor sensitif yw adeilad i waith addasu neu estyn. Er enghraifft, mae llawer o adeiladau Gradd II yn fathau gwerinol o adeiladau a arferai fod yn gyffredin ac a restrwyd am eu bod yn enghreifftiau o'u bath nad ydynt wedi'u newid fawr ddim ac y gall eu diddordeb arbennig gael ei niweidio gan waith addasu neu estyn amhriodol.

**5.15** Gellir gwneud rhywfaint o waith newid ac estyn sensitif ar lawer o adeiladau rhestredig er mwyn darparu ar gyfer parhau â defnydd neu wneud defnydd newydd. Gall newidiadau a wnaed yn y gorffennol sy'n adlewyrchu hanes o ddefnydd a pherchenogaeth fod, eu hunain, yn agweddau ar ddiddordeb arbennig yr adeilad rhestredig.[80] Pan fydd ymgeiswyr a'r awdurdod cynllunio yn asesu gwerthoedd treftadaeth ac arwyddocâd adeilad rhestredig sy'n destun cais am gydsyniad, mae'n rhaid iddynt ystyried sensitifrwydd yr adeilad hwnnw i'r newidiadau arfaethedig. Mae'r gwaith o gynnal diddordeb arbennig adeilad rhestredig drwy'r broses o'i newid, estyn neu ailddefnyddio yn waith manwl, a dylid bob amser ei wneud yn seiliedig ar wybodaeth a sgil arbenigol er mwyn gwireddu'r buddiannau y gall ymyriadau sydd wedi'u dylunio'n dda eu cyflawni.[81]

**5.16** O dan amgylchiadau eithriadol a dim ond fel dewis olaf y dylid gwneud cais i ddymchwel adeilad rhestredig. Ni ddylai cydsyniad i ddymchwel gael ei roi am y rheswm syml bod ailddatblygu yn fwy deniadol yn economaidd nag atgyweirio ac ailddefnyddio adeilad rhestredig. Mae angen ystyried y ffactorau canlynol:

- Cyflwr yr adeilad, cost atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad o'i chymharu â'i bwysigrwydd a'r gwerth sy'n deillio o barhau i'w ddefnyddio. Pan fydd adeilad wedi'i esgeuluso'n fwriadol, rhoddir llai o bwys ar y costau hyn.
- Yr ymdrechion a wnaed er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r adeilad neu i sicrhau defnydd newydd ar ei gyfer, gan gynnwys cynnig rhydd-ddaliad anghyfyngedig yr adeilad i'w werthu am bris teg ar y farchnad sy'n adlewyrchu ei gyflwr a'i leoliad.
- Rhinweddau'r cynigion amgen ar gyfer y safle, gan gynnwys p'un a fyddai'r adeiladau newydd yn bodloni amcanion dylunio da[82] a ph'un a oes buddiannau sylweddol i'r gymuned a fyddai'n drech na'r golled o ganlyniad i ddymchwel.

**5.17** Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio hysbysu'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol[83] a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru am geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a'r penderfyniadau a wneir ganddynt ar geisiadau i ddymchwel adeilad rhestredig neu i wneud addasiadau iddo sy'n cynnwys elfen o ddymchwel. Diben hysbysu'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol

---

80 Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

81 Gall Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru roi cyngor i awdurdodau cynllunio, awdurdodau cyhoeddus, datblygwyr, dylunwyr ac eraill.

82 Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio.

83 Adeiladau a Lleoedd Hanesyddol, y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, y Grŵp Sioraidd, y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, Cymdeithas Oes Fictoria a Chymdeithas yr Ugeinfed Ganrif.

yw eu galluogi i wneud sylwadau ar bob cais cyn gynted â phosibl a galluogi awdurdodau cynllunio i ystyried eu sylwadau fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Rhaid i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru gael ei hysbysu gan yr awdurdod cynllunio am benderfyniad i roi cydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig a chael o leiaf un mis i gael mynediad i'r adeilad a'i gofnodi.[84]

**5.18** Fel arfer, nid ystyrir bod diogelu ffasadau ar eu pen eu hunain na gwagio ac ailadeiladu'r tu mewn i adeiladau rhestredig yn ffordd dderbyniol o'u hailddefnyddio.

## Hysbysu Gweinidogion Cymru

**5.19** Os yw awdurdod cynllunio yn bwriadu rhoi cydsyniad adeilad rhestredig mae'n rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, yn gyntaf.[85] Mae gan Weinidogion Cymru 28 diwrnod i benderfynu naill ai i gyfarwyddo'r awdurdod i gyfeirio'r cais iddynt (galw'r cais i mewn) neu ofyn am ragor o amser i ystyried gwneud cyfarwyddyd o'r fath. Ar ddiwedd y 28 diwrnod, os nad yw Gweinidogion Cymru wedi ymateb o gwbl neu eu bod wedi hysbysu'r awdurdod nad ydynt yn bwriadu gwneud cyfarwyddyd i alw'r cais i mewn, gall yr awdurdod cynllunio roi'r cydsyniad. Nid oes angen i awdurdod cynllunio hysbysu Gweinidogion Cymru os ydynt yn gwrthod cydsyniad adeilad rhestredig. Gall pob awdurdod cynllunio ganiatáu cydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith nad yw ond yn effeithio ar y tu mewn i adeilad rhestredig Gradd II (heb seren) heb hysbysu Gweinidogion Cymru.

Bydd awdurdodau cynllunio yn hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw gais sy'n cynnwys y canlynol:

(i) dymchwel adeilad rhestredig;
(ii) adeilad rhestredig Gradd I neu II*; a
(iii) gwaith ar y tu allan i adeilad rhestredig Gradd II (heb seren).

**5.20** Anaml iawn y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu eu hunain ar geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau rhestredig. Mae'n bosibl y byddant yn penderfynu ar gais os bydd Gweinidogion Cymru yn teimlo ei fod yn codi materion ehangach na materion lleol, sydd o bwys mawr neu sy'n ddadleuol. Gallai hyn gynnwys achosion lle nad yw'r awdurdod cynllunio wedi rhoi sylw dyledus i bolisi cenedlaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd hanesyddol, neu lle mae wedi'i ddiystyru'n llwyr.

**5.21** Lle bynnag y bo modd, mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i weld penderfyniadau ynghylch cydsyniad adeilad rhestredig yn cael eu gwneud yn lleol. Gallant gyfarwyddo nad oes angen i awdurdod cynllunio eu hysbysu am gategorïau penodol o geisiadau.[86]

**5.22** Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, ar yr amod bod yr awdurdod cynllunio yn cael caniatâd ysgrifenedig Cadw ymlaen llaw, na fydd adran 95 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad) yn gymwys i rai categorïau o gais. Yn ymarferol, mae rhai awdurdodau cynllunio wedi llwyddo yn eu cais i ddatgymhwyso'r gofyniad i hysbysu am waith ar adeiladau Gradd II (heb seren) neu Gradd II* (ac eithrio dymchwel) ar yr amod bod yr awdurdod cynllunio yn glynu wrth gyngor swyddog cadwraeth adeiladau arbenigol a enwir. Os na fydd penderfyniad arfaethedig yr awdurdod cynllunio i gymeradwyo'r cais yn

84 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 97(5).
85 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 95(1).
86 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 95(4), (5)(a) a (6).

gwbl unol â'r cyngor a roddwyd gan y swyddog cadwraeth adeiladau arbenigol neu, os na fydd y swyddog cadwraeth adeiladau arbenigol, am ba reswm bynnag, yn gallu rhoi cyngor ar y cais hwnnw, bydd Adran 95 yn dal i fod yn gymwys a bydd yn rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru am y cais.

## Cydsyniad Adeilad Rhestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth Awdurdodau Lleol

**5.23** Rhaid i awdurdodau lleol roi enghreifftiau o arfer da i berchenogion eraill o ran cynnal eu hadeiladau rhestredig a'u hadeiladau o fewn ardaloedd cadwraeth. Os awdurdod lleol yw'r ymgeisydd, mae'n rhaid cyflwyno pob cais am gydsyniad adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio perthnasol. Gall awdurdod cynllunio bennu ei gais ei hun am gydsyniad adeilad rhestredig os nad yw'n cynnwys dymchwel. Os yw'r cais ar gyfer dymchwel, rhaid i'r awdurdod cynllunio ymgymryd â'r gofynion ymgynghori a hysbysu a nodir yn rheoliad 19 o Reoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 cyn cyfeirio'r cais am gydsyniad adeilad rhestredig at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt benderfynu arno.

**5.24** Mae gofynion tebyg yn gymwys wrth ddymchwel adeiladau y mae awdurdod lleol yn berchen arnynt mewn ardaloedd cadwraeth. Ar ôl cwblhau'r gofynion ymgynghori a hysbysu, bydd yr awdurdod cynllunio'n cyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt benderfynu arno.

**5.25** Cyn gwneud cais, anogir yr awdurdod lleol i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio â swyddog cadwraeth yr awdurdod cynllunio ac un o gynrychiolwyr Cadw. Dylai'r awdurdod cynllunio ddarparu asesiad ysgrifenedig o'r cynllun er mwyn ategu'r cais, cyn i'r cais gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt benderfynu arno.

## Apeliadau

**5.26** Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdod cynllunio lleol, neu os bydd awdurdod cynllunio lleol yn methu â gwneud penderfyniad, ynghylch cais am gydsyniad adeilad rhestredig. Mae'r amgylchiadau lle y gellir cyflwyno apêl yn cynnwys pan fydd awdurdod cynllunio:[87]

- yn gwrthod cais am gydsyniad adeilad rhestredig;
- yn caniatáu cais am gydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i amodau;
- yn gwrthod cais i amrywio neu ddileu'r amodau a osodwyd ar gydsyniad adeilad rhestredig;
- yn gwrthod cais am gymeradwyaeth o fanylion gweithiau sy'n ofynnol o dan amod cydsyniad adeilad rhestredig;
- yn methu â phenderfynu ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig o fewn wyth wythnos iddo gael ei ddilysu gan yr awdurdod cynllunio.

Gall ymgeisydd gynnwys, fel sail yr apêl neu un o seiliau'r apêl, honiad nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol arbennig ac nad yw'n haeddu ei statws adeilad rhestredig.[88]

---

87 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 100.
88 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 101(2).

Caiff apêl ei gwneud i Weinidogion Cymru ar ffurflen[89] o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysir yr ymgeisydd am benderfyniad yr awdurdod cynllunio.[90] Os yw'r ymgeisydd yn cyflwyno apêl oherwydd bod yr awdurdod cynllunio wedi methu â rhoi hysbysiad ar ddiwedd y cyfnod penderfynu wyth wythnos, nid oes terfyn amser ar gyfer apêl.

## Hysbysiadau Prynu

**5.27** Caiff ymgeisydd y gwrthodwyd rhoi cydsyniad adeilad rhestredig iddo, neu sydd wedi cael y cydsyniad hwnnw yn ddarostyngedig i amodau, gyflwyno, o dan amgylchiadau penodol, hysbysiad prynu adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol iddo brynu buddiant yn yr adeilad a'r tir.[91]

## Addasu a Dirymu Cydsyniad Adeilad Rhestredig

**5.28** Mae amgylchiadau lle gall awdurdod cynllunio, neu mewn rhai achosion, Weinidogion Cymru, wneud gorchymyn sy'n dirymu neu'n addasu cydsyniad adeilad rhestredig. Nid yw'r dirymiad yn effeithio ar waith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni. Mae'n bosibl y bydd gofyn talu iawndal am wariant ofer neu am golled arall neu ddifrod a achoswyd gan y gorchymyn.[92]

## Cofnodi Adeiladau

**5.29** Bydd gwaith a wneir o ganlyniad i gydsyniad adeilad rhestredig yn aml yn cynnig cyfle i gofnodi nodweddion yr adeilad y bwriedir eu gwaredu neu eu newid, neu a all gael eu datgelu yn ystod y gwaith. Gall gwaith sy'n gysylltiedig â chydsyniad adeilad rhestredig hefyd ddatgelu gweddillion archaeolegol cyfnodau cynharach yn hanes yr adeilad neu eitemau sy'n gysylltiedig â'r adeilad. Wrth ystyried cais am gydsyniad adeilad rhestredig, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio benderfynu a oes angen rhaglen o waith cofnodi adeilad a/neu ymchwilio archaeolegol er mwyn cofnodi'r nodweddion a allai gael eu datgelu neu eu dinistrio. Mae'n bosibl y byddant yn ceisio cyngor eu cynghorwyr archaeolegol ac yn gosod amod addas mewn perthynas â chofnodi (gweler 4.13). Dylid cofnodi canlyniad unrhyw gofnod o adeilad a/neu ymchwiliad pensaernïol gyda y cofnodion amgylchedd hanesyddol.[93] Dylai ymgeiswyr gysylltu â'r awdurdod cynllunio pan wneir darganfyddiadau annisgwyl wrth i waith fynd rhagddo. Mae'n rhaid rhoi cyfle i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru gofnodi adeilad y cynigiwyd ei ddymchwel.[94]

---

89 Mae'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho o'r adran ar Apeliadau Cynllunio ar wefan Llywodraeth Cymru.
90 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 100, 101 a 104; Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024, rheoliad 16.
91 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 109-112 ac Atodlen 9; Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024, Atodlen 2.
92 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 108.
93 Gweler Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio, Cadw, Llywodraeth Cymru, paragraff 3.1.
94 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 97(5).

## Adeiladau Crefyddol Esempt

**5.30** Mae esemptiadau rhag prosesau cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer enwadau penodol[95] pan fyddant yn gwneud newidiadau i'w hadeiladau crefyddol sy'n parhau i fod yn addoldai. Yr unig enwadau a'r crefyddau y mae'r esemptiad hwn yn gymwys iddynt yw'r rheini sydd wedi sefydlu systemau rheoli mewnol sy'n sicrhau'r un lefel o weithgarwch ymgynghori a chraffu ag a gyflawnir gan awdurdodau cynllunio pan fyddant yn ystyried ceisiadau i ddymchwel, newid ac estyn yr adeiladau rhestredig, ac sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.[96] Mae egwyddorion y cyngor cynllunio manwl a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol hwn yn gymwys i'r enwadau hynny sydd ag esemptiad rhag prosesau cydsyniad wrth wneud newidiadau i'w hadeiladau crefyddol.

**5.31** Dylid cyflwyno cynigion am weithiau i'w cymeradwyo gan gorff annibynnol, a ddylai gael cyngor oddi wrth bobl sydd â gwybodaeth arbenigol am addoldai hanesyddol. Dylai'r broses gwneud penderfyniadau ddarparu ar gyfer ymgynghori â'r awdurdod cynllunio, cymdeithasau amwynder cenedlaethol a Cadw, gan roi 28 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau. Mae'n arfer da hefyd ymgynghori â'r cyngor cymuned, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru. Dylid hefyd roi cyhoeddusrwydd i gynigion. Dylai'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ystyried unrhyw sylwadau a wneir yn ogystal â dymunoldeb gwarchod adeiladau hanesyddol a nodweddion o ddiddordeb arbennig. At hynny, dylai fod gweithdrefn orfodi ar gyfer ymdrin ag unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r system reoli.[97]

## Rheolaethau Eraill

**5.32** Wrth i awdurdodau lleol arfer eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau rhestredig o dan y rheoliadau adeiladu a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thân pan fydd rhaglenni o waith atgyweirio a gwaith addasu wedi'u cynnig, dylent wneud hynny â chydymdeimlad. Dylent geisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni'r amcanion hyn a chadw diddordeb arbennig yr adeilad.[98] Ar y llaw arall, dylai awdurdodau cynllunio ymdrin â chynigion i newid adeiladau rhestredig gyda chydymdeimlad er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu gan roi sylw digonol i gymeriad yr adeilad yn ogystal â buddiannau cyffredinol newid. Dylid mabwysiadu'r un dull gweithredu wrth ystyried cynigion ar gyfer mynediad i'r llai abl a bodloni gofynion eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[99]

## Gorfodi

**5.33** Mae gan weithgarwch gorfodi rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod adeiladau rhestredig, ar y llaw arall, gall gweithgarwch gorfodi a dargedir yn wael danseilio gwaith diogelu effeithiol. Mae'n drosedd gwneud gwaith ar adeilad rhestredig, neu beri i waith o'r fath gael ei wneud, sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig heb gydsyniad adeilad rhestredig. Mae hefyd yn drosedd methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd ar gydsyniad adeilad rhestredig.

---

[95] Eglwys Loegr, yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Fethodistaidd ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr.
[96] Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
[97] Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
[98] Gweler Rheoliadau Adeiladu 2010 – rheoliadau 21, 37A a 44B.
[99] Rheoli Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru a Safonau Prydeinig 7913:2013 Guide to the conservation of historic buildings.

**5.34** Mewn achosion o dorri rheolaethau adeiladau rhestredig, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried p'un a ddylid cymryd camau gorfodi, neu erlyn, neu'r ddau. Gall gorfodi fod yn ddymunol er budd yr adeilad dan sylw, a gall fod yn ymateb digonol i'r drosedd heb yr angen ychwanegol am erlyn. Nodir rhagor o fanylion am erlyn a gorfodi yn Atodiad B.

# 6 Ardaloedd Cadwraeth

## Dynodi ac Adolygu Ardaloedd Cadwraeth

**6.1** Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio, o dro i dro, nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol i'w cymeriad neu eu golwg gael eu diogelu neu eu gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth.[100] Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried a oes angen rhagor o ddynodiadau neu ddiwygiadau.[101]

**6.2** Mae dynodi ardaloedd cadwraeth yn sail i bolisïau y bwriedir iddynt ddiogelu neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gallai hyn gynnwys y patrwm anheddu neu'r modd y mae gofod a llwybrau wedi'u trefnu, yn ogystal ag arddull yr adeilad a'r math o adeilad, y deunyddiau a ddefnyddiwyd, a manylion yr adeilad. Gall seilwaith gwyrdd hefyd fod yn bwysig, ond nid yw dynodi ardaloedd cadwraeth yn debygol o fod yn ffordd briodol o warchod nodweddion tirwedd, oni bai eu bod yn rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

**6.3** O bryd i'w gilydd mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli.[102] Yn unol â'r arfer gorau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeng mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio atodol. Mae'n rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth wrth iddynt wneud penderfyniadau cynllunio.[103] O dan amgylchiadau eithriadol, os nad yw ardal gadwraeth neu ran ohoni yn meddu ar y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi mwyach, ceir addasu neu ddileu'r dynodiad hwnnw.

## Arfarnu Ardaloedd Cadwraeth

**6.4** Mae arfarniad o ardal gadwraeth yn sail i unrhyw gynigion ar gyfer ei diogelu a'i gwella. Mae'n rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail i gynllun rheoli manylach. Dylai hefyd gynnwys dadansoddiad o anghenion polisi a rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y rheolaethau cynllunio presennol a'r angen am fesurau gwarchod atodol, a dylai nodi ffyrdd o ddiogelu neu wella cymeriad arbennig.[104] Bydd sail gadarnach i bolisïau mewn cynlluniau datblygu lleol ac i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth, a byddant hefyd yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor, os diffinnir cymeriad pob ardal gadwraeth ac os nodir polisïau ar gyfer ei diogelu a'i gwella yn fanwl mewn cynllun rheoli.[105] Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.[106]

---

[100] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 158.
[101] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 158.
[102] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 159.
[103] Polisi Cynllunio Cymru, paragraffau 6.1.6–6.1.9.
[104] Gweler Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru, adran 3.
[105] Gweler Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru, adran 4.
[106] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

**6.5** Mae gan ardaloedd cadwraeth, o ran eu natur, sawl rhanddeiliad a dylai trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Bydd cynigion ar gyfer diogelu a gwella hefyd yn fwyaf effeithiol pan fydd holl adrannau'r cyngor yn deall pwysigrwydd dynodi ardaloedd cadwraeth ac yn cydweithio. Felly, argymhellir yn gryf y dylid mabwysiadu dull tîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis yr adran briffyrdd a'r adran dai.

## Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth

**6.6** Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol nodi'n glir y bydd cynigion datblygu'n cael eu barnu yn ôl eu heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y'i nodir yn y ddogfen arfarnu a rheoli. Bydd angen paratoi datganiad dylunio a mynediad ar gyfer cynigion datblygu penodol o fewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o anhedd-dai neu ddarparu adeilad neu adeiladau lle bo'r arwynebedd llawr sy'n cael ei greu gan y datblygiad yn 100 o fetrau sgwâr neu'n fwy.[107]

**6.7** Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canol masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reoli newid mewn ffordd gadarnhaol sy'n hybu bywiogrwydd economaidd a bywyd cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n cyd-fynd â nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol neu sy'n amharu ar gymeriad neu olwg yr ardal; dylai'r broses o'u dileu er mwyn gwneud lle i ddatblygiadau newydd ysgogi gwaith cynllunio dychmygus, o safon uchel a chynnig cyfle i wella'r ardal.[108]

## Rheoli Hysbysebion

**6.8** Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl i ddyletswydd yr awdurdod cynllunio i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth olygu, yn ymarferol, ei fod yn gosod safonau llymach pan fydd yn ystyried a ddylid rhoi cydsyniad ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

**6.9** Mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio fod yn hyblyg o ran y defnydd a wnânt o'u pwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (fel y'i diwygiwyd), am fod llawer o ardaloedd yn cynnwys eiddo manwerthu a masnachol sy'n amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu awyr agored yn hanfodol i weithgarwch masnachol ac fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchenogion a thenantiaid eiddo masnachol i sicrhau bod adeiladau mewn cyflwr da ac yn edrych yn ddeniadol.[109]

---

107 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, erthygl 7 (fel y'i diwygiwyd).
108 Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, adran 4 ac adrannau 5.5 a 5.6.
109 Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored.

## Cydsyniad Ardal Gadwraeth

**6.10** Mae angen cael cydsyniad ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, ond ceir rhai eithriadau.[110] Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn gyfystyr â thynnu adeilad i lawr fel ei fod wedi'i ddinistrio'n gyfan gwbl, neu o leiaf i raddau helaeth iawn.[111] Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasad hefyd gyfrif fel gwaith dymchwel.

**6.11** Mae Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 yn nodi nad oes angen Cydsyniad ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol[112] o adeiladau neu weithiau. Mae'r darnau hyn o waith yn cynnwys dymchwel adeilad â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 o fetrau ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder ac sy'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu le agored, neu sy'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel ffabrig rhan o adeilad yn waith dymchwel ac na fydd cydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer.

**6.12** Rhaid i geisiadau am gydsyniad i ddymchwel adeilad gael eu gwneud i'r awdurdod cynllunio. Ar gyfer ceisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth, bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, a ddylai esbonio pam mae dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ynghyd ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.[113]

**6.13** Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid asesu cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath yn unol â'r un meini prawf cyffredinol ag a ddefnyddir i asesu cynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.16). Mewn achosion lle y tybir nad yw adeilad yn gwneud fawr ddim cyfraniad, os o gwbl, bydd angen i'r awdurdod cynllunio, fel arfer, gael gwybodaeth lawn am yr hyn a gynigir ar gyfer y safle ar ôl dymchwel yr adeilad. Ni ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel adeilad heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle, oni bai bod ailddatblygu, ynddo ei hun, yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio yr hawl i ystyried egwyddorion cyffredinol datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, ei faint a'i fàs, wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

**6.14** Gall fod yn briodol gosod amod wrth roi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig fel na fydd yn digwydd nes i ganiatâd cynllunio llawn gael ei roi a nes i gontract ar gyfer gwneud y gwaith datblygu gael ei lunio.[114]

---

110 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 161 a 162.
111 Shimizu (UK) Ltd v. Westminster Council (1997) 1 All E. R. 481.
112 Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024, rheoliad 23.
113 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
114 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran97(7), 161(1) a (4), 162(1) a (2), a 163(1) a (2).

## Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth

**6.15** Mae gan awdurdodau cynllunio y pŵer i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion diogelu coed. At hynny, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion diogelu coed.[115] Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, blaendorri neu frigdorri coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio, ac yn ystod yr amser hwnnw, gall yr awdurdod cynllunio benderfynu a ddylid gwarchod y goeden honno drwy wneud gorchymyn diogelu coed.[116]

**6.16** Wrth ystyried a ddylid gwarchod coed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio bob amser ystyried cyfraniad gweledol a hanesyddol coed a'u cyfraniad at amwynder. Mewn rhai achosion, gall gwaith plannu newydd neu waith ailblannu fod yn ddymunol pan fyddai'n gydnaws â chymeriad neu olwg yr ardal.[117]

## Gorfodi

**6.17** Mae gan waith gorfodi rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio ystyried mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolaethau rheoleiddiol, yn hytrach na dim ond ymchwilio pan wneir cwyn ffurfiol. Bydd ymagwedd gadarnhaol a gweithredol at waith gorfodi yn helpu i leihau nifer yr achosion o dorri rheoliadau ac i sicrhau gwelliannau parhaol i ansawdd yr amgylchedd.[118]

## Apeliadau

**6.18** Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdod cynllunio, neu os bydd awdurdod cynllunio lleol yn methu â gwneud penderfyniad, ynghylch cais am gydsyniad ardal gadwraeth. Mae'r amgylchiadau lle y gellir cyflwyno apêl yn cynnwys pan fydd awdurdod cynllunio:

- Yn gwrthod cais am gydsyniad ardal gadwraeth;
- Yn caniatáu cais am gydsyniad ardal gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau;
- Yn gwrthod cais i amrywio neu ddileu'r amodau a osodwyd ar gydsyniad ardal gadwraeth;
- Yn gwrthod cais am gymeradwyaeth manylion gweithiau o dan amod cydsyniad ardal gadwraeth;
- Yn methu â phenderfynu ar gais am gydsyniad o fewn wyth wythnos iddo gael ei ddilysu gan yr awdurdod cynllunio.

**6.19** Caiff apêl ei gwneud i Weinidogion Cymru ar ffurflen o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysir yr ymgeisydd am benderfyniad yr awdurdod cynllunio.

---

[115] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 adran 211 (Diogelu Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth) (fel y'i diwygiwyd); Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Diogelu Coed, adran 13.
[116] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 adran 211 (Diogelu Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth) (fel y'i diwygiwyd); Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Diogelu Coed, adran 13.
[117] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 64/78 a Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Diogelu Coed.
[118] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Rhan 3, Pennod 4.

# 7 Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru

## Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru

**7.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gynnal a chyhoeddi cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru.[119]

**7.2** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio warchod a diogelu parciau a gerddi, a'u gosodiadau, sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Er nad yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar y rhestr yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau cydsynio newydd, dylai fod parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u gosodiadau, yn cael eu gwarchod drwy'r system gynllunio.

**7.3** Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar geisiadau cynllunio sy'n debygol o effeithio ar safle parc a gardd hanesyddol gofrestredig neu ei osodiad/gosodiad. Pan fydd awdurdodau cynllunio yn penderfynu ar gais cynllunio, dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd hanesyddol cofrestredig, neu ei osodiad/gosodiad, fod yn ystyriaeth berthnasol. Gall awdurdodau cynllunio hefyd ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.

**7.4** Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddangos ei fod yn deall arwyddocâd y parc neu'r ardd gofrestredig a'r effaith y mae'r cynnig yn debygol o'i chael. Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio yw ystyried a yw'r effaith yn debygol o fod yn annerbyniol o niweidiol. Argymhellir y dylai ymgeiswyr gynnal trafodaethau cyn ymgeisio â'r awdurdod cynllunio ynghylch y gwaith arfaethedig y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer a gellir gwahodd Cadw i ddod i unrhyw gyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor i'r ymgeisydd.[120]

**7.5** Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar asedau hanesyddol dynodedig o fewn parc a gardd gofrestredig, bydd angen y cydsyniadau a chaniatadau perthnasol. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhain ar waith cyn i'r gwaith ddechrau.

## Y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru

**7.6** Mae'r *Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru* yn gofrestr anstatudol ymgynghorol (gweler Atodiad C.5–C.7). Mae iddi ddau ddiben. Yn gyntaf, pan allai newid mawr fod yn cael ei ystyried, bwriedir iddi lywio'r gwaith o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ar lefel strategol am bwysigrwydd hanesyddol yr ardaloedd a nodwyd. Yn ail, dylid ystyried gwybodaeth ar y gofrestr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio lle mae'r datblygiad yn gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu, os yw wedi cael ei alw i mewn, lle mae'n ddigon mawr, lle mae'n ddigon mawr i gael mwy nag effaith leol ar y dirwedd hanesyddol, ym marn Gweinidogion Cymru, i gael mwy nag effaith leol ar y dirwedd hanesyddol. Dylai'r gofrestr sicrhau y darperir ar gyfer newid angenrheidiol heb aberthu cyfanrwydd na chydlyniant hanfodol ardaloedd tirwedd hanesyddol. Diben ehangach y gofrestr yw hyrwyddo gwerth y dirwedd hanesyddol fel adnodd i hybu lles cymdeithasol ac economaidd.

[119] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 192.
[120] Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.

**7.7** Bydd yn rhaid i unrhyw ddatblygiadau y mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer ac a fydd yn effeithio ar ardal ar y *Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol* ystyried y cofnod ar y Gofrestr wrth lunio'r Datganiad Amgylcheddol.[121] Gellir hefyd ystyried canlyniadau unrhyw waith i ddadansoddi LANDMAP[122] Mae'r rheoliadau'n gwahaniaethu rhwng datblygiadau Atodlen 1, y mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer pob un ohonynt 'if it is likely to have significant effects on the environment by virtue of factors such as its size, nature or location'.[123] Wrth sgrinio prosiectau Atodlen 2, rhaid i'r awdurdod cynllunio roi sylw i'r meini prawf ar gyfer dethol sydd i'w gweld yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau. Mae Paragraff (2)(c)(viii) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn nodi 'landscapes of historical, cultural or archaeological significance'. Yng Nghymru, dylid ystyried bod ardal ar y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yn bodloni'r maen prawf hwn.

**7.8** Mae canllawiau arfer gorau wedi'u datblygu er mwyn helpu awdurdodau cynllunio a'r Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru wrth iddynt ystyried cynigion cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd ar y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol. Ar gyfer datblygiadau arfaethedig o fewn tirwedd hanesyddol gofrestredig y mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer, mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad priodol o'r effeithiau fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol.[124] Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, ar ddatblygiadau o'r fath.[125]

---

121 Cylchlythyr 11/99 y Swyddfa Gymreig: Asesu Effeithiau Amgylcheddol yw'r canllawiau cyfredol o hyd ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, sy'n gweithredu *Cyfarwyddeb y Cyngor Rhif 85/337 EEC*, ond maent hefyd yn cynnwys arweiniad perthnasol ar gyfer Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

122 Adnodd tirwedd Cymru gyfan yw LANDMAP lle y caiff nodweddion, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso (www.naturalresources.wales/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap/?lang=cy).

123 Cylchlythyr 11/99 y Swyddfa Gymreig: Asesu Effeithiau Amgylcheddol, paragraff 28

124 Fel y disgrifir yn nogfen Cadw a Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu, (2[il]) argraffiad diwygiedig, paragraff 2.8.

125 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, paragraff (l)(iv) o Atodlen 4 (fel y'i diwygiwyd).

# 8 Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

**8.1** Mae asedau hanesyddol y mae'r awdurdod cynllunio, o bosibl, yn ystyried eu bod o ddiddordeb lleol arbennig, yn agored i'r un gofynion cydsynio â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, er mwyn i asedau o'r fath gyfrannu'n llwyddiannus at gadw neu wella cymeriad lleol, mae angen nodi eu statws yn glir yn y broses rheoli datblygu. Os bydd awdurdod cynllunio yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, rhaid iddo gynnwys polisïau ar gyfer eu diogelu a'u gwella yn y cynllun datblygu lleol.

**8.2** Mae canllawiau cynllunio atodol sy'n gysylltiedig â pholisïau o'r fath yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio a gallant fod yn adnodd effeithiol ar gyfer rheoli asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.[126]

**8.3** Mae asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol mewn ardaloedd cadwraeth yn cael budd o'r rheolaeth gyffredinol dros waith dymchwel a sicrheir gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2023.[127]

[126] Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbenning yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
[127] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 161.

# 9 Atodiadau

## Atodiad A: Henebion Cofrestredig

### *Dynodi Henebion Cofrestredig*

**A.1** Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o henebion y maent yn ystyried eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol, a rhaid iddynt gyhoeddi'r gofrestr gyfredol.[128] Mae mwy na 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, y mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn eiddo preifat. Mae cofrestru gweddillion archaeolegol yn sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r achos dros eu gwarchod pan fydd unrhyw gynigion datblygu neu unrhyw waith a allai gael effaith andwyol ar yr heneb yn cael eu hystyried (gweler 4.2–4.11). Nid yw pob safle archaeolegol o bwys cenedlaethol wedi'i gofrestru. Gall safleoedd o bwys cenedlaethol gael eu darganfod ar hap neu o ganlyniad i arolygon archaeolegol systematig a gall Gweinidogion Cymru ystyried eu cofrestru.[129]

**A.2** Defnyddir y meini prawf canlynol (nad ydynt wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol) i asesu pwysigrwydd cenedlaethol heneb ac a fyddai'n briodol ei chofrestru. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y meini prawf yn rhai diffiniol. Yn hytrach, dangosyddion ydynt sy'n cyfrannu at lunio barn ehangach yn seiliedig ar amgylchiadau unigol achos.

- **a. Cyfnod:** dylid ystyried diogelu pob math o heneb sy'n nodweddu categori neu gyfnod.
- **b. Prinder:** mae rhai categorïau o henebion, sydd mor brin mewn rhai cyfnodau, fel y dylai'r holl enghreifftiau sydd wedi goroesi ac sydd â rhywfaint o botensial archaeolegol o hyd gael eu diogelu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dylid dewis detholiad sy'n portreadu'r nodweddiadol a'r cyffredin yn ogystal â'r prin. Dylai'r broses hon ystyried yr holl agweddau ar ddosbarthiad dosbarth arbennig o heneb, o ran cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol.
- **c. Dogfennaeth:** gall arwyddocâd heneb cael ei ategu gan fodolaeth cofnodion archwiliadau blaenorol neu, yn achos henebion diweddarach, gan dystiolaeth ategol a geir mewn cofnodion ysgrifenedig cyfoes.
- **ch. Gwerth Grŵp:** gall gwerth heneb unigol (megis system caeau) gael ei ategu'n fawr gan ei pherthynas â henebion cyfoes perthnasol (megis anheddiad neu fferm) neu â henebion o gyfnodau gwahanol. Mewn rhai achosion, mae'n well gwarchod y grŵp cyfan o henebion, gan gynnwys tir cysylltiedig a chyfagos, yn hytrach na gwarchod henebion unigol o fewn y grŵp.
- **d. Goroesi/Cyflwr:** mae'r ffaith bod potensial archaeolegol heneb yn goroesi uwchben y ddaear ac oddi tano yn ystyriaeth arbennig o bwysig, a dylid asesu'r heneb o ran ei chyflwr presennol a'r nodweddion sydd wedi goroesi.
- **dd. Cyflwr bregus:** gall tystiolaeth archaeolegol bwysig iawn am rai henebion maes gael ei dinistrio gan un cyfnod o aredig neu drwy gael ei thrin heb gydymdeimlad. Byddai henebion o'r math hwn sydd dan fygythiad yn elwa'n arbennig ar y warchodaeth statudol y mae cofrestru yn ei rhoi. Mae yna adeileddau hefyd o ffurf neu gymhlethdod arbennig y gall eu gwerth gael ei leihau'n ddifrifol drwy esgeulustod neu driniaeth ddiofal, ac a fyddai yr un mor addas i gael eu gwarchod fel henebion cofrestredig hyd yn oed os yw'r adeileddau hynny eisoes yn adeiladau hanesyddol rhestredig.

---

[128] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2023, adran 3.

[129] Mae gwefan Cadw yn darparu rhagor o wybodaeth am henebion cofrestredig (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig).

e. **Amrywiaeth:** mae'n bosibl y caiff rhai henebion eu cofrestru am fod ganddynt gyfuniad o nodweddion uchel eu hansawdd; rhai eraill oherwydd bod ganddynt un nodwedd bwysig.

f. **Potensial:** ar adegau, ni ellir pennu natur y dystiolaeth yn fanwl, ond gall fod yn bosibl dogfennu rhesymau yn rhagweld ei bodolaeth a'i phwysigrwydd ac felly dangos bod cyfiawnhad dros gofrestru. Mae hyn yn gyfyngedig fel arfer i safleoedd archaeolegol lle mae gweddillion o dan y ddaear yn hytrach na henebion sy'n sefyll.

### *Cydsyniad Heneb Gofrestredig*

**A.3** Mae angen i waith a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar heneb gofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw.[130] Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd cynllunio y mae'n ofynnol ei gael ar gyfer datblygiad. Ystyrir bod wyth o ddosbarthau penodol o weithiau nad ydynt fel arfer yn creu difrod i henebion cofrestredig yn cael awdurdod yn gyntaf a gellir ei gyflawni heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol i Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn adran A8. Mae'r holl weithiau eraill angen cais ffurfiol, ond yn dilyn trafodaethau â Cadw, gellir awdurdodi rhai gweithiau bach iawn gan ddilyn proses fwy syml.[131]

**A.4** Cyflwynir ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig i Weinidogion Cymru, drwy Cadw.[132] Anogir ymgeiswyr i ofyn am gyfarfod cyn ymgeisio ar y safle i drafod eu cynigion. Wrth gyflwyno eu ceisiadau, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod wedi deall ac ystyried pwysigrwydd yr heneb wrth lunio'r rhaglen waith, a chynnwys digon o wybodaeth a lluniadau i ddangos yr effeithiau uniongyrchol ar arwyddocâd y safle. Mae'r wybodaeth hon yn sail i asesiad o'r effaith ar dreftadaeth lle bo angen un.[133] Fel arfer, bydd angen cyflwyno'r un lefel o wybodaeth yn achos ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig ag sydd angen ei chyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio llawn.

**A.5** Prif ddiben cofrestru yw sicrhau bod henebion o bwys cenedlaethol yn cael eu diogelu ac mae rhagdybiaeth o blaid eu diogelu'n ffisegol wrth ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Golyga hyn fod rhagdybiaeth yn erbyn cynigon a fyddai'n cynnwys gwneud newidiadau mawr neu'n achosi difrod, neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar osodiad gweddillion. Disgwylir i ymgeiswyr ddangos nad oes unrhyw lwybr na lleoliad amgen ymarferol, sy'n osgoi'r heneb, a bod yr angen i wneud y gwaith yn drech na'r rhagdybiaeth o blaid diogelu'r heneb gofrestredig. Fel arfer, bydd Cadw yn mynnu bod ymgeisydd yn comisiynu arbenigwr cymwysedig a chymwys i gynnal asesiad archaeoleg pen desg a/neu werthusiad maes yn unol â'r safon briodol (gweler 4.7 uchod), cyn i benderfyniad gael ei wneud. Caiff unrhyw raglen o waith cloddio a chofnodi archaeolegol sydd ei hangen fel mesur lliniaru ei sefydlu drwy gyfrwng amodau (gweler 4.12-4.15).

---

130 Caiff gwaith sydd angen cael ei awdurdodi ei ddiffinio yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 11(2) fel unrhyw waith sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio heneb gofrestredig, neu at unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig; i waith at ddiben symud ymaith neu atgyweirio heneb gofrestredig neu unrhyw ran ohoni, neu wneud unrhyw addasiadau i'r heneb neu i unrhyw ran ohoni neu unrhyw ychwanegiadau ati neu at unrhyw ran ohoni; i weithrediadau i foddi tir, neu weithrediadau tipio ar dir, y mae heneb gofrestredig ynddo, arno neu odano.

131 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 14(4) a (5).

132 Mae gwefan Cadw yn darparu canllawiau ychwanegol am gydsyniad heneb gofrestredig (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/caniatad-heneb-gofrestredig#adran-beth-yw-cydsyniad-heneb-gofrestredig).

133 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth, Cadw, Llywodraeth Cymru.

Ar ôl derbyn cais, bydd Cadw yn cyflwyno llythyr penderfyniad dros dro, sy'n cynnwys manylion unrhyw amodau arfaethedig neu resymau dros wrthod. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd wneud sylwadau. Cyn penderfynu ar gais am gydsyniad heneb gofrestredig, gall Gweinidogion Cymru ysgogi archwiliad lleol, penodi unigolyn i gynnal gwrandawiad, penodi unigolyn i dderbyn sylwadau ysgrifenedig neu ddefnyddio unrhyw gyfuniad o'r trafodion hyn.[134] Yn ymarferol, bydd ymgeiswyr yn cael cynnig y dewisiadau gweinyddol hyn, os yw Cadw yn gwrthod cydsyniad heneb gofrestredig.

**A.6** Gall Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol lunio cytundeb rheoli â meddiannydd heneb gofrestredig o ddiddordeb hanesyddol arbennig er mwyn cyflawni rhaglen o waith cynnal a chadw a/neu waith cyfalaf y cytunwyd arni er budd cadwraeth yr heneb gofrestredig neu er mwyn hwyluso mwynhad y cyhoedd o'r safle.[135] Fel arfer, mae i gytundebau rheoli ar gyfer henebion cofrestredig o ddiddordeb hanesyddol arbennig derfyn amser a gallant ddenu cymorth grant. Pan fo cytundeb rheoli a wneir gan Weinidogion Cymru yn caniatáu cydsyniad heneb gofrestredig yn amodol ar amodau, rhaid i'r cytundeb nodi'r amodau hynny.[136]

**A.7** Pan fo heneb gofrestredig ar Dir y Goron, dylai adran berthnasol y Llywodraeth ddilyn gweithdrefn anstatudol a elwir yn gliriad heneb gofrestredig wrth gynnig gwaith ar safle o'r fath. Bydd y gweithdrefnau clirio yn dilyn y rhai ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig ac mae'n ofynnol i adrannau'r Llywodraeth gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir ar gliriad o'r fath.

---

[134] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol) (Cymru) 2023, adran 17(2).
[135] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 51.
[136] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 51(7).

## *Awdurdodiad ar gyfer Dosbarthau o Waith*

**A.8** Dosbarthiadau o waith a awdurdodir gan adran 12 ac Atodlen 3 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

| Enw'r dosbarth | Gwaith awdurdodedig |
|---|---|
| Dosbarth 1: Gwaith Amaethyddol, Gwaith Garddwriaethol a Gwaith Coedwigaeth | Gwaith amaethyddol, gwaith garddwriaethol a gwaith coedwigaeth o'r un math â gwaith a gyflawnwyd yn gyfreithlon yn yr un man o fewn y chwe mlynedd cyn y diwrnod y mae'r gwaith yn dechrau; ac eithrio:<br>a) yn achos tir y cyflawnwyd gwaith aredig arno'n flaenorol, gwaith sy'n debygol o aflonyddu ar y pridd o dan y dyfnder y cyflawnwyd gwaith aredig arno'n gyfreithlon yn flaenorol;<br>b) yn achos tir arall, gwaith sy'n debygol o aflonyddu ar y pridd o dan ddyfnder o 300 o filimetrau;<br>c) troi'r isbridd, gwaith draenio, plannu neu ddadwreiddio coed, gwrychoedd neu berthi neu lwyni, stripio'r uwchbridd, gweithrediadau tipio, neu dorri a symud ymaith dyweirch yn fasnachol;<br>d) dymchwel, symud ymaith, estyn, addasu neu aflonyddu ar adeilad, strwythur neu waith, neu olion adeilad, strwythur neu waith;<br>e) codi adeilad neu strwythur;<br>f) yn achos gwaith ac eithrio gwaith garddio domestig, gosod llwybrau, mannau arwyneb caled neu sylfeini ar gyfer adeiladau neu godi ffensys neu rwystrau eraill. domestig, gosod llwybrau, lloriau caled neu sylfeini ar gyfer adeiladau, neu godi ffensys neu rwystrau eraill. |
| Dosbarth 2: Gweithrediadau mwyngloddio glo | Gwaith a gyflawnir fwy na 10 metr o dan lefel y ddaear gan unrhyw weithredwr trwyddedig (o fewn yr ystyr a roddir i "licensed operator" yn Neddf y Diwydiant Glo 1994). |
| Dosbarth 3: Gwaith gan Glandŵr Cymru | Gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw a gyflawnir gan Glandŵr Cymru, mewn perthynas â thir y mae'n berchen arno neu sydd wedi ei feddiannu ganddi, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau gweithrediad camlas; ac eithrio gwaith sy'n ymwneud ag addasiad sylweddol i heneb gofrestredig. |
| Dosbarth 4: Gwaith i atgyweirio neu gynnal a chadw peiriannau | Gwaith i atgyweirio neu gynnal a chadw peiriannau, ac eithrio gwaith sy'n ymwneud ag addasiad sylweddol i heneb gofrestredig. |
| Dosbarth 5: Gwaith a gyflawnir gan Historic England | Gwaith a gyflawnir gan Gomisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr. |
| Dosbarth 6: Gwaith gwerthuso archaeolegol | Gwaith gwerthuso archaeolegol a gyflawnir gan berson sydd wedi gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, neu ar ran person o'r fath, pan fo'r gwaith yn cael ei gyflawni:<br>a) i roi i Weinidogion Cymru wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt i benderfynu'r cais,<br>b) o dan oruchwyliaeth person sydd wedi ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru, ac<br>c) yn unol â manyleb ysgrifenedig sydd wedi ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru. |
| Dosbarth 7: Gwaith gyda chymorth grant gan Weinidogion Cymru | Gwaith i ddiogelu, cynnal a chadw neu reoli heneb gofrestredig pan fo'r gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â thelerau cytundeb ysgrifenedig y mae Gweinidogion Cymru yn talu costau'r gwaith hwnnw, neu'n cyfrannu tuag at y costau hynny, odano. |
| Dosbarth 8: Gwaith a gyflawnir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Gwaith i osod marcwyr arolwg i ddyfnder nad yw'n fwy na 300 o filimetrau at ddiben arolygon wedi eu mesur o olion gweladwy, pan fo'r gwaith wedi ei gyflawni gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. |

### *Troseddau sy'n Ymwneud â Henebion Cofrestredig*

**A.9** Mae'n drosedd dinistrio neu ddifrodi heneb gofrestredig, gwneud gwaith heb gydsyniad heneb gofrestredig neu beidio â chydymffurfio a'i hamodau.[137] Bydd Cadw yn arwain y gwaith o ymchwilio i ddifrod y rhoddwyd gwybod amdano a gallant hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau a gadarnhawyd. Gellir rhoi dirwy neu ddedfryd o garchar, neu'r ddau, yn gosb os ceir collfarn am ddifrodi heneb warchodedig.

**A.10** Lle mae Cadw wedi nodi bod heneb gofrestredig yn cael ei difrodi bydd yn ceisio sicrhau y daw'r gwaith i ben ar unwaith naill ai'n wirfoddol neu drwy gyflwyno hysbysiad stop dros dro sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith a nodwyd ddod i ben am hyd at 28 diwrnod.[138] Caiff copi o'r hysbysiad ei osod ar y safle a gellir cyflwyno copïau i'r sawl sy'n gwneud y gwaith, i'r meddiannydd ac i unrhyw un arall yr ystyrir bod ganddo fuddiant yn yr heneb neu'r tir. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro mewn perthynas â heneb gofrestredig yn drosedd y gellir ei chosbi drwy roi dirwy.

**A.11** Os bydd heneb gofrestredig wedi'i difrodi neu os bydd gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud arni, yn ogystal ag ystyried y posibilrwydd o erlyn, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno hysbysiad gorfodi.[139] Gall yr hysbysiad gorfodi ei gwneud yn ofynnol i'r heneb gofrestredig gael ei hadfer i'w chyflwr blaenorol neu, os na fydd hyn yn ymarferol nac yn ddymunol, gall fynnu bod gwaith yn cael ei wneud i liniaru effeithiau'r difrod neu'r gwaith anawdurdodedig.[140] Gallai gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi gynnwys cynllun priodol o waith ymchwilio archaeolegol a gwaith i sefydlogi'r heneb. Rhaid cyflwyno copi o'r hysbysiad gorfodi i bob perchennog a deiliad yr heneb, y lesddeiliad ac unrhyw berson arall sydd â diddordeb yn yr heneb y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried y bydd yr hysbysiad yn cael effaith perthnasol arnynt.[141] Os na fydd y gwaith a nodir yn yr hysbysiad gorfodi wedi'i wneud o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan yr hysbysiad, caiff Gweinidogion Cymru fynd i mewn i'r heneb er mwyn gwneud y gwaith eu hunain ac adennill costau yr aed iddynt yn rhesymol.[142] Gall gwaith anawdurdodedig arwain at golli archaeoleg yn ddiwrthdro ac ni fydd modd adfer hynny drwy gamau gorfodi.

**A.12** Ar adegau prin, caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad heneb gofrestredig er mwyn awdurdodi gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ac sydd wedi bod o fudd i'r heneb gofrestredig.[143] Mewn achosion o'r fath, caiff y gwaith ei awdurdodi ar ôl caniatáu'r cydsyniad yn unig. Ni chaiff y rhan fwyaf o waith anawdurdodedig ei gymeradwyo'n ôl-weithredol a bydd yn parhau i fod yn anawdurdodedig. Gallai arwain at erlyniad neu gamau gorfodi hyd yn oed pe gallai cydsyniad heneb gofrestredig fod wedi'i roi pe bai cais wedi'i wneud amdanor.

---

[137] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023l, adrannau 30 a 58.
[138] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 31–34.
[139] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 35(1).
[140] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 35(2) a (3).
[141] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 36(4).
[142] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 40.
[143] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran13.

**A.13** Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn nodi'r diffyniadau yn erbyn troseddau penodol. Er enghraifft, o dan amgylchiadau penodol, gall yr amddiffyniad canlynol fod yn gymwys: gall y person brofi ei fod wedi mynd ati, cyn y gwaith, i gymryd pob cam rhesymol i bennu a oedd heneb gofrestredig yn yr ardal ac nad oedd y person yn gwybod ac nad oedd ganddo reswm i gredu bod yr heneb yn yr ardal, neu ei fod yn heneb gofrestredig. Ceir gwybodaeth am leoliad a maint pob heneb gofrestredig ar wefan Cadw.[144]

**A.14** Mae'n drosedd defnyddio synhwyrydd metel neu gynnal arolwg geoffisegol gan ddefnyddio cyfarpar a all ddod o hyd i wrthrychau metel ar safle heneb gofrestredig neu safle unrhyw heneb sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, heb gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw.[145] Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr synwyryddion metel yn ymddwyn yn gyfrifol. Fodd bynnag, gall gweithgarwch synhwyro metel achosi difrod difrifol i heneb gofrestredig — nid yn unig i'w hadeiladwaith ond hefyd o ran ei dehongli a'i deall unwaith y bydd arteffactau wedi'u symud o'u cyd-destun archaeolegol. Dylid gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, drwy Cadw, er mwyn defnyddio synhwyrydd metel neu gyfarpar arolygu geoffisegol. Fel arfer ni roddir cydsyniad ac eithrio ar gyfer prosiectau ymchwil geoffisegol nad ydynt yn ddinistriol neu er mwyn helpu i adfer gwrthrychau metel yn ystod gwaith cloddio archaeolegol y rhoddwyd cydsyniad ar ei gyfer neu adfer eitemau gwerthfawr o eiddo modern a gollwyd.

### *Gwaith Brys ar gyfer Iechyd a Diogelwch*

**A.15** Gall gwaith brys i heneb gofrestredig fod yn angenrheidiol weithiau er budd iechyd a diogelwch, a gall rhai mathau o argyfwng olygu nad oes amser i wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bod yn rhaid cyfyngu unrhyw waith brys i leiafswm y mesurau sy'n angenrheidiol ar unwaith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid cyflwyno cyfiawnhad ysgrifenedig manwl dros gyflawni'r gwaith i Weinidogion Cymru hefyd (Cadw, yn ymarferol) cyn gynted ag sy'n rhesymol yn ymarferol[146]. Lle bo hynny'n ymarferol, dylid cysylltu â Cadw am gyngor cyn cyflawni gwaith o'r math. Mae Cadw ar gael hefyd i roi cyngor o ran pa mor addas yw unrhyw waith ychwanegol dilynol a allai fod yn angenrheidiol ac a fydd y gwaith hwnnw angen cydsyniad heneb gofrestredig.

---

[144] Cof Cymru (https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw).
[145] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 60.
[146] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 30(8).

## Atodiad B: Adeiladau Rhestredig

### *Dynodi Adeiladau Rhestredig*

**B.1** Yn dilyn ail arolwg daearyddol systematig, a gwblhawyd yn 2005, mae bellach 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Cyhoeddir y rhestr o adeiladau hanesyddol ar gronfa ddata a mapiau ar wefan Cadw.[147]

**B.2** Nodir isod y prif feini prawf ar gyfer penderfynu pa adeiladau y dylid eu cynnwys yn y rhestrau statudol:

- **a. Diddordeb pensaernïol:** dylai'r rhestr gynnwys pob adeilad sydd o bwys i'r genedl oherwydd nodweddion diddorol eu cynlluniau pensaernïol, eu haddurniadau a'u crefftwaith; hefyd enghreifftiau pwysig o fathau penodol o adeiladau a thechnegau (er enghraifft, adeiladau sy'n dangos arloesedd neu rinweddau technolegol) a ffurfiau cynllun arwyddocaol;
- **b. Diddordeb hanesyddol:** mae hyn yn cynnwys adeiladau sy'n darlunio agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol y genedl;
- **c. Cysylltiadau hanesyddol agos:** â phobl neu ddigwyddiadau sydd o bwys i Gymru;
- **ch. Gwerth grŵp:** yn enwedig lle mae'r adeiladau gyda'i gilydd yn ffurfio uned bensaernïol neu hanesyddol bwysig neu enghraifft wych o gynllunio (er enghraifft, sgwariau, terasau neu bentrefi model).

**B.3** Mae oedran a phrinder yn berthnasol, yn arbennig pan gynigir adeiladau i'w rhestru ar sail eu diddordeb hanesyddol. Po hynaf yw'r adeilad a pho brinnaf yw'r enghreifftiau o'i fath sydd wedi goroesi, y mwyaf tebygol ydyw y bydd o bwys hanesyddol. Felly, mae pob adeilad a godwyd cyn 1700 ac sydd wedi goroesi yn ei gyflwr gwreiddiol, fwy neu lai, yn cael ei restru. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau sy'n dyddio o tua 1700 i 1840 hefyd yn cael eu rhestru, er bod angen rhywfaint o ddethol. Ar ôl tua 1840, oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer yr adeiladau a godwyd a'r ffaith bod llawer mwy ohonynt wedi goroesi, mae angen bod yn fwy detholus er mwyn nodi'r enghreifftiau gorau o fathau penodol o adeiladau, a dim ond adeiladau o ansawdd a chymeriad pendant a gaiff eu rhestru. Fel arfer dim ond os ydynt o ansawdd eithriadol ac o dan fygythiad y caiff adeiladau sy'n llai na 30 mlwydd oed eu rhestru. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer rhestru adeiladau a godwyd yn ystod yr 20fed ganrif yw nodi enghreifftiau allweddol ar gyfer pob un o ystod o fathau o adeiladau – diwydiannol, addysgol, ysbytai, etc – a thrin yr enghreifftiau hyn fel pe baent yn diffinio'n fras safon y dylid barnu cynigion ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr yn unol â hi.

### B.4 Detholedd

Os bydd adeilad yn gymwys i'w restru yn bennaf ar sail ei ansawdd pensaernïol cynhenid neu ei werth grŵp, nid yw'r ffaith bod adeiladau eraill o ansawdd tebyg mewn mannau eraill yn debygol o fod yn ystyriaeth bwysig. Mae rhestru adeiladau yn bennaf am resymau hanesyddol yn fwy o ymarfer cymharol a, lle mae nifer sylweddol o adeiladau o fath ac ansawdd tebyg wedi goroesi, mae angen i'r rhestru fod yn ddetholus. Mewn achosion o'r fath, y nod fydd rhestru'r enghreifftiau gorau o'r math.

[147] Cof Cymru (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw).

## B.5 Rhinweddau Esthetig

Mae golwg allanol adeilad – ei werth pensaernïol cynhenid ac unrhyw werth grŵp – yn ystyriaeth allweddol wrth farnu cynigion rhestru, ac ni fydd diddordeb arbennig adeilad, er enghraifft y rhai sy'n bwysig am resymau yn ymwneud ag arloesedd technegol, neu am eu bod yn dangos agweddau penodol ar hanes cymdeithasol neu economaidd, bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn ansawdd gweledol amlwg.

## B.6 Cysylltiadau Hanesyddol

Gellir rhestru adeiladau ar sail pensaernïaeth neu hanes ac mae'r broses o ddewis adeiladau i'w rhestru yn ystyried y ddau. Fel arfer bydd yr achos dros restru adeiladau yn bennaf am resymau hanesyddol yn seiliedig ar ei gysylltiad â phobl a digwyddiadau sy'n bwysig yn hanes Cymru. Bydd y broses asesu yn ystyried i ba raddau y mae elfennau o gymeriad cyfoes gwreiddiol adeilad wedi goroesi. Bydd cysylltiadau hanesyddol a chryn dystiolaeth iddynt sy'n dangos pwysigrwydd adeilad i Gymru yn cryfhau'r achos dros ei gynnwys yn y rhestrau statudol neu roi gradd uwch iddo. Fel arfer, dylai fod rhyw nodwedd neu ddiddordeb yn perthyn i adeiladwaith yr adeilad ei hun er mwyn cyfiawnhau'r warchodaeth statudol a roddir drwy restru. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â gwerth pensaernïol yr adeilad ei hun neu â diogelu nodweddion sy'n dangos ac yn cadarnhau ei gysylltiadau hanesyddol yn uniongyrchol (er enghraifft, am fod nodweddion mewnol wedi goroesi).

## B.7 Graddio

Rhestrir adeiladau mewn tair gradd sy'n adlewyrchu eu pwysigrwydd cymharol:

**Gradd I** – adeiladau o ddiddordeb eithriadol (cenedlaethol fel arfer)
**Gradd II*** – adeiladau o bwys penodol sydd o ddiddordeb mwy nag arbennig
**Gradd II** – adeiladau o ddiddordeb arbennig y dylid gwneud pob ymdrech i'w diogel.

### *Erlyn a Gorfodi*

**B.8** Mae'n drosedd gwneud gwaith ar adeilad rhestredig, neu beri i waith o'r fath gael ei wneud, sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig heb gydsyniad adeilad rhestredig. Mae hefyd yn drosedd methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd ar gydsyniad adeilad rhestredig.[148]

**B.9** Pan fyddant yn wynebu achos o dorri rheolaethau adeiladau rhestredig, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried a ddylent gymryd camau gorfodi[149] neu erlyn neu'r ddau. Efallai y bydd mesurau gorfodi yn ddymunol er budd yr adeilad dan sylw, ac mae'n bosibl y bydd y gwaith a fynnir gan y mesurau gorfodi yn ymateb digonol i'r drosedd heb fod angen erlyn hefyd. Gall gwaith anawdurdodedig yn aml ddinistrio adeiladwaith hanesyddol, na ellir adfer ei ddiddordeb arbennig drwy fesurau gorfodi. Ni all hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ddod i rym yn gynt nag 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Gall hysbysiad stop dros dro ddod â gwaith nas awdurdodwyd i ben ar unwaith, gan osgoi'r risg o ddifrod pellach i adeiladwaith hanesyddol yr adeila.[150]

---

148 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 88 a 117.
149 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Rhan 3, Pennod 4.
150 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adrannau 119–121.

**B.10** O dan amgylchiadau eithriadol, gellir gwneud ceisiadau i gadw gwaith anawdurdodedig. Bydd awdurdodau cynllunio yn dilyn yr un gweithdrefnau â'r rhai a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a byddant yn defnyddio'r un profion wrth ystyried rhinweddau'r achos. Yn ymarferol, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol ac wrth gyflawni gwaith a phan fo'r gwaith a gyflawnwyd er budd adeilad rhestredig y bydd cydsyniad o'r fath yn cael ei ganiatáu. Os rhoddir cydsyniad gall y gwaith aros. Mewn achosion o'r fath, caiff y gwaith ei awdurdodi ar ôl caniatáu'r cydsyniad yn unig. Os na chaiff ei awdurdodi, efallai y cymerir camau gorfodi i unioni unrhyw ddifrod neu ddileu'r gwaith. Bydd unrhyw atebolrwydd am drosedd sy'n deillio o waith anawdurdodedig yn parhau, ac, mewn achosion priodol, efallai y caiff y sawl sy'n gyfrifol ei erlyn.

### *Adeiladau Rhestredig mewn Perygl*

**B.11** Mae gan awdurdodau lleol fesurau a phwerau amrywiol y gallant eu defnyddio pan fo amod i adeilad rhestredig yn effeithio'n andwyol ar amwynder a budd y cyhoedd. Mae'r pwerau sydd ar gael yn cynnwys sawl mesur sy'n benodol i adeiladau rhestredig. Gall rhai eraill, sy'n gysylltiedig ag amwynder cyffredinol, ac iechyd a diogelwch y cyhoedd, fod yn ddefnyddiol hefyd wrth fynd i'r afael â heriau'r adeiladau rhestredig sydd mewn perygl.[151]

### *Gwaith Brys i Adeilad Rhestredig*

**B.12** Mae gan awdurdodau lleol[152] y pŵer i wneud gwaith y maent yn ei ystyried sydd angen ei wneud ar frys er mwyn diogelu adeilad rhestredig yn eu hardal.[153] Gall hyn gynnwys gwaith i adeilad sydd at ddefnydd preswyl cyn belled nad yw'n amharu'n afresymol â'r defnydd hwnnw. O dan amgylchiadau eithriadol, gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r un pŵer er mwyn sicrhau y caiff gwaith brys ei wneud ar adeilad rhestredig os yw'r awdurdod lleol yn amharod i weithredu, neu os yw'r adeilad yn eiddo i'r awdurdod lleol ei hun. Gall gwaith brys gynnwys y gwaith hwnnw y gall fod angen ei wneud er mwyn atal adeilad rhag dymchwel, sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll y gwynt a'r glaw neu ei ddiogelu rhag fandaliaeth a lladron. Dylid sicrhau mai'r camau a gymerir yw'r lleiaf sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Caiff awdurdodau lleol adennill cost gwneud y gwaith brys oddi wrth berchenogion yr adeilad, er bod gan y perchenogion yr hawl i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar y sail bod rhan o'r gwaith neu'r holl waith a wnaed gan yr awdurdod lleol yn ddiangen, bod y costau'n afresymol a bod ei ddulliau o gynnal neu gysgodi'r adeilad dros dro wedi para am gyfnod afresymol o amser.[154] Gall y perchenogion neu'r awdurdod lleol hefyd apelio i'r llys sirol yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru.[155]

**B.13** Gall y costau yr eir iddynt wrth wneud gwaith brys hefyd gael eu rhoi fel pridiant ar y tir lle saif yr adeilad rhestredig a gellir codi llog ar unrhyw symiau sy'n ddyledus.[156]

---

151 Gweler Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru, Cadw, Llywodraeth Cymru.
152 Yr awdurdod lleol sydd â'r pwerau i wneud gwaith brys o dan adran 144. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 157 yn diffinio 'awdurdod lleol'.
153 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 144.
154 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 145(3).
155 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 145(6).
156 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 146.

### *Adeiladau Rhestredig sydd Angen eu Hatgyweirio*

**B.14** Mae gan awdurdodau cynllunio[157] y pŵer hefyd i gyflwyno hysbysiad atgyweirio i berchennog adeilad rhestredig nad yw'n cael ei ddiogelu'n briodol, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol.[158] Mae'n rhaid i hysbysiad atgyweirio nodi'r gwaith yr ystyria'r awdurdod cynllunio fod angen ei wneud er mwyn diogelu'r adeilad yn briodol ac mae'n rhaid iddo esbonio i'r perchennog sut mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn gweithio. Gellir cyflwyno hysbysiad atgyweirio ar gyfer unrhyw adeilad rhestredig os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn bod perchennog wedi methu â chadw'r adeilad mewn cyflwr rhesymol dros gyfnod hir a bod yr adeilad mewn perygl o'r herwydd. Mae gan Weinidogion Cymru yr un pwerau, ond dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y cânt eu defnyddio.

**B.15** Os ymddengys, ar ôl i ddau fis fynd heibio ers cyflwyno hysbysiad atgyweirio, nad oes unrhyw gamau rhesymol wedi'u cymryd i ddiogelu'r adeilad, caiff yr awdurdod cynllunio ddechrau dwyn achos prynu gorfodol ar ôl cael caniatâd gan Weinidogion Cymru. Wrth roi eu caniatâd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod y modd a'r adnoddau ar gael i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei atgyweirio. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai adeiladau rhestredig preifat sy'n destun gorchmynion prynu gorfodol, aros yn y sector preifat. Dylai'r awdurdod cynllunio ddod i gytundeb ag unigolyn preifat neu gorff, megis ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau, a all gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith atgyweirio. Bydd angen negodi cyfamodau er mwyn sicrhau bod y gwaith atgyweirio yn cael ei wneud. Caiff awdurdodau cynllunio werthu neu roi prydles hir ar adeilad rhestredig a brynwyd yn orfodol, i gorff priodol o fewn dwy flynedd, heb sicrhau unrhyw enillion cyfalaf iddynt hwy eu hunain, heb gael eu cosbi.

**B.16** Ni chaiff awdurdodau cynllunio ystyried defnyddio gorchymyn adeiledd peryglus[159] ar gyfer adeilad rhestredig, adeilad sy'n destun hysbysiad rhestru dros dro nac adeilad mewn ardal gadwraeth, heb ystyried defnyddio eu pwerau ar gyfer hysbysiad atgyweirio, prynu gorfodol a gwaith brys o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

---

157 Diffinnir "awdurdod cynllunio" yn adran 210 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2023 ac mae iddo'r ystyr a roddir gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yng Nghymru, yr awdurdod cynllunio yw'r cyngor sir, y cyngor bwrdeistref sirol neu'r awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer ardal.

158 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, adran 137.

159 Deddf Adeiladu 1984, adran 79A (fel y'i diwygiwyd.

## Atodiad C: Asedau Hanesyddol Cofrestredig

### *Y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru*

**C.1** Mae adran 192 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal cofrestr o barciau a gerddi yng Nghymru y maent yn ystyried sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Ceir gwybodaeth am yr holl barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn Cof Cymru.[160]

**C.2** Mae'r diffiniad canlynol o barc a gardd hanesyddol yn darparu'r sail ar gyfer dewis safleoedd ar gyfer y gofrestr.[161]

Mae gerddi, parciau, tiroedd wedi'u dylunio, tirweddau addurniadol wedi'u dylunio a mannau hamdden o ddiddordeb hanesyddol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- **a.** os ydynt yn dangos rhyw agwedd benodol ar hanes gerddi, parciau, tiroedd wedi'u dylunio, tirweddau addurniadol wedi'u dylunio a mannau hamdden, neu hanes garddio, gwaith tirweddu addurniadol neu arddwriaeth
- **b.** bod ganddynt gysylltiadau hanesyddol pwysig (er enghraifft, ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol)
- **c.** bod iddynt werth fel grŵp ar y cyd ag adeiladau neu dir arall a bod y gwerth grŵp ei hun o ddiddordeb hanesyddol, er enghraifft, efallai eu bod yn gosodiad hanesyddol ar gyfer adeilad o ddiddordeb hanesyddol.

**C.3** Mae safleoedd sy'n cydymffurfio â thraddodiadau gerddi, parciau, tiroedd wedi'u dylunio, tirweddau addurniadol wedi'u dylunio a mannau hamdden wedi'u cynnwys yn y diffiniad. At ddibenion cyffredinol, mae'n gyfleus defnyddio'r termau 'gerddi a pharciau o ddiddordeb hanesyddol' a 'safle' fel ymadroddion cryno ar gyfer 'gerddi, parciau, tiroedd wedi'u dylunio, tirweddau addurniadol wedi'u dylunio a mannau hamdden o ddiddordeb hanesyddol'.

**C.4** Defnyddir system raddio sy'n debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig (sef I, II*, II) ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol. Mae graddau yn nodi'r nodweddion canlynol:

**Gradd I** – parciau a gerddi sydd o ddiddordeb eithriadol o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd.
**Gradd II*** – parciau a gerddi sydd o ansawdd gwych o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd.
**Gradd II** – parciau a gerddi sydd o ddiddordeb arbennig o ystyried eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol gyda'i gilydd.

### *Y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru*

**C.5** Cyhoeddir y gofrestr hon mewn dwy ran. *Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol*, sy'n cynnwys 36 o ardaloedd a *Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig*, sy'n cynnwys 22 o ardaloedd eraill, a oedd yn llai o faint ar y cyfan. Caiff y ddwy ran hyn eu cyfuno i ffurfio'r *Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru*.

---

160 Cof Cymru (www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw).
161 Datblygwyd gan Brifysgol Efrog, ac addaswyd yng Nghymru, yn ogystal ag yn Lloegr a'r Alban.

**C.6** Daeth y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd i rym yn y DU ar 1 Mawrth 2007. O dan y confensiwn, mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau roi mesurau cyffredinol a phenodol ar waith drwy eu pwerau deddfwriaethol a'u trefniadau gweinyddol eu hunain.[162] Mae'r mesurau cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti gydnabod tirweddau mewn cyfraith, i lunio polisïau tirwedd a'u rhoi ar waith, i sicrhau cyfranogiad eang ac integreiddio tirwedd i bolisïau cynllunio a pholisïau eraill. Dyma rai o'r mesurau penodol hynny: codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac addysg, nodi ac asesu, diffinio amcanion o ran ansawdd tirwedd a gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyhoeddi'r *Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol* a'i defnyddio wrth gynllunio a rheoli datblygu yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad hwn.

**C.7** Mae'r meini prawf ar gyfer nodi, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu hanesyddol arbennig fel a ganlyn:

Wedi'u datblygu'n ddwys neu wedi'u hailfodelu'n sylweddol

Tirweddau sydd wedi'u datblygu neu eu newid gan weithgarwch dynol (defnydd tir) i'r fath raddau fel bod yr elfennau naturiol (tirffurf) a lled-naturiol (gorchudd tir) wedi'u newid yn sylweddol: trefi mawr, dinasoedd, cytrefi, ardaloedd diwydiannol, prosiectau peirianneg sifil ar raddfa fawr, tirweddau sy'n dangos gweithgarwch dynol ar raddfa fawr.

Cyfnod

Tirweddau lle mae datblygiad neu newid o ganlyniad i weithgarwch dynol wedi'i atal mewn un neu ragor o gyfnodau a lle mae newidiadau perthnasol dilynol wedi'u cyfyngu: tirweddau creiriol (neu ffosiledig) sy'n dangos gweithgarwch dynol mewn un neu ragor o gyfnodau, a adawyd o bosibl neu nad ydynt wedi newid, i bob pwrpas, ers i'r prif weithgaredd ddod i ben.

Amrywiaeth hanesyddol/Amlgyfnod

Tirweddau sy'n dal i ddatblygu neu newid o ganlyniad i weithgarwch dynol, a lle mae tystiolaeth o fwy nag un cyfnod yn y gorffennol wedi'i chymathu'n gynyddol â'r elfennau naturiol (tirffurf) a lled-naturiol (gorchudd tir), gan ystyried yn benodol yr ardaloedd hynny y mae eu datblygiad dros amser yn cael ei ddangos gan amrywiaeth o nodweddion archaeolegol neu hanesyddol sydd ag un neu ragor o'r elfennau canlynol:

- **a.** ffurfiau gwahanol ar yr un math o ddosbarth o nodwedd
- **b.** amrywiaeth o nodweddion gwahanol
- **c.** dwysedd nodweddion cysylltiedig
- **ch.** gwerth grŵp penodol
- **d.** parhad drwy sawl cyfnod
- **e.** nodweddion sy'n ymwneud â datblygu thema neu broses benodol.

Wedi'u claddu/Wedi'u hymgorffori neu wedi'u dinistrio

Tirweddau â chysylltiadau hanesyddol (digwyddiadau, traddodiadau, chwedlau, llên gwerin), artistig, llenyddol, pensaernïol, technolegol neu grefyddol, neu gysylltiadau diwylliannol pwysig eraill, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd.

[162] Y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd, (Florence, 2000, Misc 4 (2006), Cm 6794).

## Atodiad Ch: Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd wedi'i gynnwys ar restr a lunnir neu a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. |
| Adeiladwaith hanesyddol | Y sylweddau sy'n gwneud ased hanesyddol, gan gynnwys yr olion ffisegol sy'n sefyll a'r dyddodion archaeolegol claddedig. |
| Ardal Gadwraeth | Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol i'w chymeriad neu ei golwg gael eu diogelu neu eu gwella, a ddynodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. |
| Ardaloedd archaeolegol sensitif | Ardaloedd lle y ceir crynhoad o safleoedd archaeolegol. |
| Arolwg o Gyflwr Adeiladau Rhestredig Cymru Gyfan | Rhaglen o arolygon o adeiladau rhestredig ledled Cymru sy'n defnyddio methodoleg gyson. |
| Arolwg Geoffisegol | Mae arolwg geoffisegol archaeolegol yn defnyddio technegau nad ydynt yn ymwthiol nac yn ddinistriol i nodi presenoldeb neu absenoldeb anghysondebau sy'n debygol o gael eu hachosi gan nodweddion, strwythurau neu ddyddodion archaeolegol, i'r graddau sy'n rhesymol bosibl, o fewn ardal neu safle a nodwyd ar dir, mewn parth rhynglanwol neu dan y dŵr. Mae gwaith arolygu geoffisegol yn nodi presenoldeb anghysondebau sydd â photensial archaeolegol drwy fesur un neu ragor o nodweddion ffisegol yr isarwyneb (CIfA). |
| Arwyddocâd | Gwerth lle o ran treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, yn aml wedi'i nodi mewn datganiad o arwyddocâd. |
| Arwyddocaol | Digon mawr neu bwysig i haeddu sylw. |
| Ased hanesyddol | Elfen o'r amgylchedd hanesyddol y gellir ei hadnabod. Gall fod yn safle archaeolegol, adeilad neu strwythur hanesyddol, parc neu ardd hanesyddol neu ran o dirwedd hanesyddol, neu'n gyfuniad ohonynt. Fel arfer, caiff asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol eu dynodi. |
| Ased hanesyddol dynodedig | Safle Treftadaeth y Byd, Heneb Gofrestredig, Adeilad Rhestredig, Safle Llongddrylliad Gwarchodedig, neu Ardal Gadwraeth a ddynodwyd yn ased o'r fath o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Ased Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig | Asedau hanesyddol lleol nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig nac ardaloedd cadwraeth, neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig sy'n gwneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a gwybodaeth y cyhoedd. Dylid eu dewis yn seiliedig ar ymgynghoriad a thystiolaeth leol gadarn a gall yr awdurdod cynllunio eu cadw ar restr. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Proses sy'n edrych ar yr effeithiau y mae cynllun neu raglen yn debygol o'u cael ar yr amgylchedd cyn iddynt ddechrau. Mae'r rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau a rhaglenni arfaethedig penodol a all effeithio ar yr amgylchedd fod yn destun asesiad amgylcheddol wrth iddynt gael eu paratoi. Gwneir hynny drwy lunio Adroddiad Amgylcheddol ac ymgynghori wedyn â Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Asesiad desg | Rhaglen i astudio'r amgylchedd hanesyddol o fewn ardal neu safle a nodwyd ar dir, mewn parth rhynglanwol neu dan y dŵr sy'n cyflawni amcanion ymchwil a/neu gadwraeth y cytunwyd arnynt. Mae'n golygu dadansoddi gwybodaeth ysgrifenedig, graffig, ffotograffig ac electronig sy'n bodoli eisoes er mwyn nodi'r asedau treftadaeth tebygol, eu diddordeb a'u pwysigrwydd a chymeriad ardal yr astudiaeth, gan roi sylw priodol i osodiadau asedau treftadaeth, ac i natur, maint ac ansawdd y diddordeb archaeolegol, hanesyddol, pensaernïol ac artistig hysbys neu bosibl. Bernir pwysigrwydd ased treftadaeth mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel y bo'n briodol. |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Proses ddadansoddol sy'n ystyried yn systematig yr effeithiau y gallai gweithredu prosiect eu cael ar yr amgylchedd, fel y'i nodir yng Nghyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol 85/337/EC (fel y'i diwygiwyd). Cofnodir yr asesiadau mewn Datganiad Amgylcheddol. |
| Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth | Mae proses asesu'r effaith ar dreftadaeth yn un strwythuredig er mwyn sicrhau bod arwyddocâd ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion ar gyfer newid. Mae'n rhan graidd o'r broses ddylunio, sy'n profi a yw'r cynigion ar gyfer newid ased hanesyddol yn briodol drwy asesu eu heffaith ar ei arwyddocâd. |
| Briff Gwylio | Rhaglen ffurfiol o arsylwi ac ymchwilio a gynhelir yn ystod unrhyw weithrediad lle ceir posibilrwydd o darfu ar weddillion archaeolegol neu eu dinistrio. O ganlyniad i'r rhaglen, llunnir adroddiad ac archif fel bod gwybodaeth ar gael am yr adnoddau archaeolegol sy'n bodoli ar safle. |
| Cadwraeth | Proses o gynnal neu reoli newid i ased hanesyddol yn ei osodiad yn y ffordd orau i gynnal ei werthoedd treftadaeth, gan gydnabod ar yr un pryd y cyfleoedd i ddatgelu neu atgyfnerthu'r gwerthoedd hynny i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. |
| Cadwraeth Natur | Diogelu a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiolegol, eu defnyddio'n ddoeth, eu rheoli'n gynaliadwy, eu hadfer a'u gwella. |
| Clustogfa (Safle Treftadaeth y Byd) | Ardal a ddiffinnir yn ddaearyddol o amgylch ffiniau Safle Treftadaeth y Byd, neu ynghlwm wrth y ffiniau hynny, sy'n rhoi haen ychwanegol o warchodaeth i'r safle. Nid yw'r glustogfa ei hun o Werth Cyffredinol Eithriadol ond mae'n cynnwys gosodiad uniongyrchol Safle Treftadaeth y Byd, golygfeydd pwysig a nodweddion sy'n swyddogaethol bwysig i gynnal a gwarchod Safle Treftadaeth y Byd. Dim ond Pwyllgor Treftadaeth y Byd sy'n gallu addasu neu newid clustogfeydd. |
| Cofnod Amgylchedd Hanesyddol | Cofnod amgylchedd hanesyddol yw'r storfa ar gyfer gwybodaeth sydd wedi'i threfnu'n systematig am yr amgylchedd hanesyddol mewn ardal benodol a gall unrhyw un ei weld. Caiff ei gynnal a'i ddiweddaru er budd y cyhoedd. |
| Cydsyniad heneb gofrestredig | Cydsyniad o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 sy'n ofynnol er mwyn awdurdodi gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Cynllun datblygu a baratoir gan awdurdod cynllunio ar gyfer ei ardal yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| Cynllun Rheoli Cadwraeth | Mae cynllun rheoli cadwraeth yn disgrifio arwyddocâd ased hanesyddol ac yn esbonio sut y bydd yn cael ei warchod, ei ddiogelu a'i gynnal. Mae'n nodi polisïau ac egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli'r ased a fydd yn cadw ei arwyddocâd, ynghyd â rhaglenni manwl ar gyfer gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio, mynediad a defnydd, a chynigion ar gyfer newid. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig | Datganiad ysgrifenedig ar amcanion prosiect, gan gynnwys dulliau, amserlen ac adnoddau.<br><br>Mae'r rhain yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer cyflawni pob cam o'r prosiect nes iddo gael ei gwblhau ac fe'u nodir yn ddigon manwl fel y gellir eu mesur, eu gweithredu a'u monitro. Fel arfer caiff y datganiad ei lunio gan archaeolegydd neu sefydliad sy'n gwneud y gwaith maes, yn aml mewn ymateb i bapur briffio/amlinelliad o'r prosiect neu fanyleb. Mae'n bosibl y bydd cynllun y prosiect yn cael ei ddiweddaru ar ôl asesiad ôl-gloddio. |
| Datblygu cynaliadwy | Y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, er mwyn cyflawni'r nodau llesiant. Mae gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gwaith datblygu sy'n gallu diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb effeithio ar y gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |
| Datblygwr | Rhywun sy'n adeiladu ar dir neu sy'n newid y defnydd o adeilad sy'n bodoli eisoes at ryw ddiben newydd. |
| Datganiad arwyddocâd | Swm gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol lle, a nodir yn aml mewn datganiad arwyddocâd. |
| Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth | Caiff canlyniadau asesiad o'r effaith ar dreftadaeth eu crynhoi mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda chais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth neu, lle y gofynnir amdano, gydsyniad heneb gofrestredig. Mae'n esbonio'r gwaith arfaethedig a'r rhesymau drosto, asesiad o arwyddocâd yr ased, ac effaith y gwaith arfaethedig, opsiynau dylunio a'r dull gweithredu a ffefrir, a datganiad mynediad, os oes angen un. Mae datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn gymesur ag arwyddocâd yr ased, a maint y newid arfaethedig. |
| Diogelu | Diogelu rhag niwed. Mae Egwyddorion Cadwraeth Cadw yn cydnabod bod newidiadau yn yr amgylchedd hanesyddol yn anochel. Trwy fynd ati'n ofalus i reoli newid, gellir diogelu arwyddocâd ased hanesyddol, a'r holl werthoedd treftadaeth diwylliannol sy'n gysylltiedig ag ef, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys cymryd camau rhagweithiol, er enghraifft, rhaglen o atgyweiriadau neu newidiadau sy'n ofynnol i gadw ased hanesyddol neu roi defnydd cynaliadwy iddo. |
| Disgrifio | Crisialu natur unigryw ardal leol drwy nodi sut mae lleoedd wedi'u ffurfio dros amser. |
| Gwaith cloddio archaeolegol | Rhaglen o waith maes ymwthiol rheoledig ac iddi amcanion ymchwil pendant sy'n astudio, yn cofnodi ac yn dehongli strwythurau archaeolegol ac, fel y bo'n briodol, yn achub arteffactau, ecoffactau a gweddillion eraill o fewn ardal neu safle a nodwyd ar dir, mewn parth rhynglanwol neu dan y dŵr. |
| Gwella/Cynyddu | Gwella ansawdd neu werth neu gynyddu maint rhywbeth. Gallai fod yn ased hanesyddol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. |
| Gwerth Cymunedol | Gwerth sy'n deillio o'r hyn y mae lle yn ei olygu i'r bobl sy'n uniaethu ag ef, neu y mae'n bwysig iddynt o ran y profiadau neu'r atgofion sydd ganddynt ar y cyd. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Gwerth esthetig | Gwerth sy'n deillio o'r ffordd y mae pobl yn cael mwynhad synhwyrol a deallusol o ased hanesyddol. |
| Gwerth hanesyddol | Gwerth sy'n deillio o'r ffordd y gellir cysylltu pobl, digwyddiadau ac agweddau ar fywyd yn y gorffennol drwy le â'r presennol. |
| Gwerth tystiolaethol | Gwerth sy'n deillio o'r potensial sydd gan le i ddarparu tystiolaeth am weithgarwch dynol yn y gorffennol. |
| Gwerthusiad archaeolegol | Rhaglen gyfyngedig o waith maes anymwthiol a/neu ymwthiol sy'n nodi presenoldeb neu absenoldeb nodweddion, dyddodion neu arteffactau archaeolegol o fewn ardal neu safle a nodwyd ar dir, mewn parth rhynglanwol neu dan y dŵr. |
| Heneb gofrestredig | Heneb sy'n cael ei chynnwys yn yr Atodlen o henebion a luniwyd ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. |
| Hysbysiad Rhestru Dros Dro | Hysbysiad sydd ag effaith o restru dros dro adeilad nad yw'n adeilad rhestredig ond sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig ac sydd mewn perygl o gael ei ddymchwel neu o gael ei addasu mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad hwnnw. |
| Gosodiad | Mae gosodiad ased hanesyddol yn cynnwys yr ardal o'i amgylch lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos. Nid oes iddo faint penodedig a gall newid wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch esblygu. Nid yw'r gosodiad ei hun yn ased hanesyddol, ond gall tir o fewn gosodiad gynnwys asedau hanesyddol eraill. |
| Lliniaru | Lliniaru yw'r camau y dylid eu cymryd i osgoi neu leihau unrhyw niwed i arwyddocâd ased hanesyddol. |
| Llongddrylliad a warchodir | Mae Deddf Gwarchod Llongddrylliadau 1973 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi safle o amgylch llongddrylliad er mwyn atal plymio heb ei reoli ac unrhyw ymyrraeth. Nodir bod safleoedd dynodedig yn debygol o gynnwys gweddillion llong, neu ei chynnwys, sydd o bwys hanesyddol, artistig neu archaeolegol. |
| Safle archaeolegol | Lle neu grŵp o safleoedd ffisegol lle y ceir tystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol; gosodiad ased treftadaeth. |
| Safle Treftadaeth y Byd | Safle, ardal neu strwythur naturiol neu ddiwylliannol y cydnabyddir ei fod/bod o Werth Cyffredinol Eithriadol ac sy'n cael ei arysgrifio/harysgrifio o dan Gonfensiwn UNESCO ar Amddiffyn Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd 1972. |
| Tystysgrif nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhestru adeilad | Tystysgrif a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n nodi na chaiff adeilad ei restru yn ystod y pum mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddir y dystysgrif. |
| Ymgeisydd | Unigolyn neu sefydliad sy'n gwneud cais i'r corff perthnasol am ganiatâd cynllunio, cydsyniad heneb gofrestredig, cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth. |
| Yn y fan a'r lle | Mae yn y fan a'r lle yn cyfeirio at arteffact nad yw wedi'i symud o'r man lle y'i gosodwyd yn wreiddiol. |
| Yr amgylchedd hanesyddol | Pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o ryngweithio pobl a lleoedd dros amser, gan gynnwys holl olion ffisegol gweithgarwch dynol yn y gorffennol sydd wedi goroesi, boed yn weladwy, yn gladdedig neu o dan ddŵr, ac a gafodd eu plannu neu eu rheoli'n fwriadol. |

## Atodiad D: Cysylltiadau a ffynonellau o wybodaeth bellach

**Llywodraeth Cymru**
Gwefan: www.llyw.cymru

**Cadw**
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 03000 252239
E-bost: Cadw@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cadw.gov.wales

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)**
Ffordd Penglais
Aberystwyth
SY23 3BU
Ffôn: 01970 621200
E-bost: nmr.wales@rcahmw.gov.uk
Gwefan: www.rcahmw.gov.uk

**Council for British Archaeology (CBA)**
De Grey House
St Leonard's Place
York
Y01 7HE
Ffôn: 01904 671417
E-bost: info@archaeologyuk.org
Gwefan: www.new.archaeologyuk.org/

**Chartered Institute for Archaeologists**
Power Steele Building
Wessex Hall
Whiteknights Road
Earley
Reading RG6 6DE
Ffôn: 0118 966 2841
E-bost: admin@archaeologists.net
Gwefan: www.archaeologists.net

**Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru**
Tŷ Cornel
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE
Ffôn: 01558 823121
E-bost: info@heneb.org.uk
Gwefan: www.heneb.org.uk/

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
E-bost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov

**Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO)**
Gwefan: www.algao.org.uk

**The Society for the Protection of Ancient Buildings (SPAB)**
37 Spital Square
London
E1 6DY
Ffôn: 020 7377 1644
E-bost: info@SPAB.org.uk
Gwefan: www.spab.org.uk

**The Georgian Group**
6 Fitzroy Square
London
W1T 5DX
Ffôn: 020 7529 8920
E-bost: Office@georgiangroup.org.uk
Gwefan: www.georgiangroup.org.uk

**The Victorian Society**
1 Priory Gardens
London
W4 1TT
Ffôn: 020 8994 1019
E-bost: admin@victoriansociety.org.uk
Gwefan: www.victoriansociety.org.uk

**The Twentieth Century Society**
70 Cowcross Street
London
EC1M 6EJ
Ffôn: 020 7250 3857
E-bost: caseworker@c20society.org.uk
Gwefan: www.c20society.org.uk

**Historic Buildings & Places**
The Courtyard
37 Spital Square
London
E1 6DY
Ffôn: 020 7236 3934
Gwefan: www.hbap.org.uk

**The Architectural Heritage Fund**
3 Spital Yard
Spitalfields
London
E1 6AQ
Ffôn: 020 7925 0199
E-bost: ahf@ahfund.org.uk
Gwefan: www.ahfund.org.uk

**Heritage Trust Network**
13-15 Fleet Street
Birmingham
B3 1JP
Ffôn: 0121 233 9283
E-bost: admin@heritagetrustnetwork.org.uk
Gwefan: www.heritagetrustnetwork.org.uk

**Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru**
Gerddi Aberglasne
Llangathen
SA32 8QH
Ffôn: 01558 668 485
E-bost: admin@whgt.org.uk
Gwefan: www.whgt.org.uk

**The Gardens Trust**
70 Cowcross Street
London
EC1M 6EJ
Ffôn: 020 7608 2409
E-bost: enquiries@thegardenstrust.org
Gwefan: www.thegardenstrust.org

**Theatres Trust**
22 Charing Cross Road
London
WC2H 0QL
Ffôn: 020 7836 8591
E-bost: planning@theatrestrust.org.uk
Gwefan: www.theatrestrust.org.uk

**Historic Houses Association in Wales**
2 Chester Street
London
SW1X 7BB
Ffôn: 020 7259 5688
E-bost: info@hha.org.uk
Gwefan: www.hha.org.uk

**The Institute of Historic Building Conservation**
Jubilee House
High Street
Tisbury
Wiltshire
SP3 6HA
Ffôn: 01747 873133
E-bost: support@ihbc.org.uk
Gwefan: www.ihbc.org.uk

**Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru**
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT
Ffôn: 029 2034 8200
E-bost: property@churchinwales.org.uk
Gwefan: www.churchinwales.org.uk

**Undeb Bedyddwyr Cymru**
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ
Ffôn: 0345 222 1514
E-bost: post@ubc.cymru
Gwefan: www.buw.wales

**Baptist Union of Great Britain**
Baptist House
PO Box 44
129 Broadway
Didcot
OX11 8RT
Ffôn: 01235 517700
Gwefan: www.baptist.org.uk

**The Methodist Church**
Methodist Church House
25 Tavistock Place
London
WC1H 9SF
Ffôn: 020 7486 5502
E-bost: enquiries@methodistchurch.org.uk
Gwefan: www.methodist.org.uk

**Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr**
Pwyllgor Eglwysi Hanesyddol Cymru a Swydd Henffordd
Tŷ'r Archesgob
43 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HD
Ffôn: 029 2022 0411
E-bost: hccsecretary12@gmail.com
Gwefan: www.catholicnews.org.uk

**ICOMOS**
11 rue du Séminaire de Conflans
94220 Charenton-le-Pont
France
Ffôn: + 33 (0) 1 41 94 17 59
E-bost: secretariat@icomos.org
Gwefan: www.icomos.org/en/

**UNESCO**
Gwefan: www.unesco.org

**Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW)**
Stiwdio 111
Creative Quarter
Morgan Arcade
Caerdydd CF10 1AF
Ffôn: 029 2022 8987
E-bost: rsaw@riba.org
Gwefan: www.architecture.com/RIBA/Contactus/OurUKoffices/Wales/Wales.aspx

**Comisiwn Dylunio Cymru**
4ydd Llawr
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
Ffôn: 029 2045 1964
E-bost: connect@dcfw.org
Gwefan: www.dcfw.org/

**Royal Town Planning Institute Cymru**
41 Botolph Lane
London
EC3R 8DL
Ffôn: 020 7929 9494
E-bost: wales@rtpi.org.uk
Gwefan: www.rtpi.org.uk

**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**
Tŷ Gwyn
31 Stryd Fawr
Y Trallwng
Powys
SY21 7YD
Ffôn: 01938 552525 / 556212
E-bost: info@cprwmail.org.uk
Gwefan: www.cprw.org.uk